# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 5 - Gwe-ddarlledu | 10 |
| 6 - Anghenion Technoleg Gwybodaeth gan Aelodau | 13 |
| 7 - Cyfweliadau Datblygu Personol | 15 |
| 7 - Atodiad | 17 |
| Gofynion Arbedion | 17 |
| Gofyion Arbedion tud 2 | 19 |
| 8 - Ymgysylltu gydag aelodau | 20 |
| 9 - Dogfen ymgynghorol ar ddiwygio llywodraeth leol | 22 |
| 9 - Atodiad | 24 |
| 10 - Grant Gwella - Llywodraeth Cymru | 56 |
| Atodiad A - Ymgynghoriad Cymwyseddau | 58 |
| 11 - Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | 70 |
| 12 - Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | 71 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democracy Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10.00am DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH, 2015**

**10.00am TUESDAY, 10 MARCH, 2015**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR/COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**BETHAN ADAMS**

**(01286) 679 020**

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed 2.3.15

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

**AELODAETH / MEMBERSHIP (15)**

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Annwen Daniels
Selwyn Griffiths
Sian Gwenllian
Annwen Hughes
Dilwyn Morgan
Michael Sol Owen
Sedd Wag / Vacant Seat

**Annibynnol / Independent (4)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Tom Ellis
Jean Forsyth
Anne Lloyd-Jones

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Anwen Davies
Gweno Glyn
Jason Humphreys

**Llafur / Labour (1)**

Y Cynghorydd / Councillor

Sion Wyn Jones

**Aelod Ex-officio / Ex-officio Member**

Cadeirydd y Cyngor / Chairman of the Council
Y Cynghorydd / Councillor Dewi Owen

## RHAGLEN

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

### 4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2014 fel rhai cywir

(copi yma – papur **melyn**)

### 5. GWE-DDARLLEDU

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **lelog**)

### 6. ANGHENION TECHNOLEG GWYBODAETH GAN AELODAU

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **gwyrdd**)

### 7. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **pinc**)

### 8. YMGYSYLLTU GYDAG AELODAU

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **glas**)

**9. DOGFEN YMGYNGHOROL AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **hufen**)

**10. GRANT GWELLA - LLYWODRAETH CYMRU**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **llwyd**)

**11. ADRODDIAD PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

(copi yma – papur **eog**)

**12. PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Ystyried adroddiad y Prif Weithredwr.

(copi yma)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 09.12.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Tom Ellis (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies Jean Forsyth, Selwyn Griffiths, Siân Gwenllïan, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Sïon Jones, Michael Sol Owen, Mandy Williams-Davies.

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer); Cynghorydd Annwen Daniels (yn cysgodi)

**Swyddogion:** Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Huw Ynyr (Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Carey Cartwright (Rheolwr Dysgu a Datblygu) a Cara Williams (Cydlynydd Hyfforddiant Aelodau) ar gyfer eitem 8 yn unig

## 1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Lesley Day gyda chroeso arbennig i'r Cynghorydd Siân Gwenllïan i'w chyfarfod cyntaf a'r Cynghorydd Annwen Daniels, aelod newydd o'r Cyngor oedd yn cysgodi. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr, Gweno Glyn, Dilwyn Morgan a Mair Rowlands a Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaethau Democrataidd)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Cyfeiriwyd at benderfyniad Mr Leighton Andrews (Gweinidog Gwasanethau Cyhoeddus yn y Cynulliad) i atal y grant mae Llywodraeth Cymru yn ei dalu i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu cefnogaeth i wella i Awdurdodau yng Nghymru o fis Ebrill 2015**.**

**Penderfynwyd anfon llythyr yn enw'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd, at Mr Leighton Andrews yn gofyn iddo ail ystyried ei benderfyniad**.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2014 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i;
i. Cywiro mai'r Cynghorydd Tom Ellis yw'r Is-gadeirydd ac nid y Cynghorydd Anne Lloyd Jones

## 5. GWE-DDARLLEDU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau gwe-ddarlledu. Eglurwyd bod cyfarfod y Cyngor a

gynhaliwyd 4.12.14 wedi ei ddarlledu yn fewnol ac wedi bod yn ymarfer llwyddiannus. Amlygwyd bod gwe ddarlledu yn bwysig i ddelwedd y Cyngor ac yn werthfawr i rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd. Gwahoddwyd sylwadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor a'u barn ynglŷn â llunio canllaw cryno.

Yn ystod y drafodaeth amlygwyd :-

- Bod yr hyfforddiant gwe ddarlledu wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Cynigiwyd bod angen hyfforddiant penodol i Gadeiryddion a hyfforddiant i Aelodau ar gyflwyno.
- Bod angen nodyn sydd yn egluro trefn pwyllgor er mwyn i'r cyhoedd fod yn gyfarwydd â'r rheolau. Nodwyd pryder o ran dealltwriaeth y cyhoedd ac felly argymhellwyd y dylai'r cadeirydd grynhoi'r penderfyniadau neu egluro'r argymhellion.
- Y pwyllgorau fydd yn cael eu gwe ddarlledu. Y bwriad hyd yma yw darlledu cyfarfodydd Y Cyngor a Phwyllgor Cynllunio yng Nghaernarfon. (Eglurwyd mai rhesymau technegol yn unig sydd dros y penderfyniad o ddarlledu Pwyllgor Cynllunio yng Nghaernarfon yn unig).
  Awgrymwyd y dylid ystyried gwe ddarlledu cyfarfodydd y Cabinet Ffurfiol gan mai yma mae'r grym a'r arweiniad i wneud penderfyniadau gweithredol. Mynegwyd yr angen i amlygu gwaith Craffu a fyddai yn cyfleu'r her a'r drafodaeth cyn penderfyniad y Cabinet. Cynigiwyd y gallai'r Fforwm Craffu ddewis eitemau a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd. Rhaid sicrhau balans ac amlygu bod y Cyngor yn gweithredu yn 'iach'
- Os bydd y gwe ddarlledu yn llwyddiannus, bydd angen adolygu oriau cytundeb gan ystyried ystadegau fydd yn tystiolaethu'r defnydd. Priodol fuasai i Eleri Williams (Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau ar y Wefan) fynychu'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chytuno y dylid creu canllaw cryno gyda'r Cynghorwyr Lesley Day, Selwyn Griffiths, Sïon Jones a Tom Ellis i gydweithio gyda swyddogion i'w lunio.**

**6. YSTYRIAETH I YSMYGU E-SIGARENAU MEWN PWYLLGORAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ysgogi trafodaeth ar e-ysmygu gan aelodau etholedig Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried os dylai'r Cyngor fabwysiadu datganiad polisi sydd yn ymestyn y gwaharddiad o staff a chwsmeriaid rhag ddefnyddio e-sigarenau o fewn adeiladau'r Cyngor a'r cyffiniau, i aelodau etholedig.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd y dylid sicrhau gweithrediad un rheol i bawb ac y dylai gwahardd e-sigarenau o fewn adeiladau'r Cyngor a'r cyffiniau
- Os bydd angen trafodaeth bellach ynglŷn â pholisi cyffredinol y Cyngor y dylid ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet neu at y Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

**PENDERFYNWYD y dylai'r Cyngor fabwysiadu datganiad polisi sydd yn ymestyn y gwaharddiad ar y defnydd o e-sigarenau yn adeiladau'r Cyngor a'u cyffiniau i aelodau etholedig**

**7. GWEFANNAU CYNGHORAU CYMUNED A THREF**

a) Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid adroddiad ar ddatblygiadau gyda grant £500 Llywodraeth Cymru i gael presenoldeb ar y we i Gynghorau Cymuned / Tref. Mynegwyd bod Opsiwn 2, sef cydweithio â chynghorau tref a

chymuned eraill yn y sir i sefydlu gwefan ar y cyd bellach wedi cael ei brisio a bod protocolau ar droed

Yn ystod y drafodaeth:-

- Mynegwyd pryder nad oedd arweiniad digonol o'r hyn sydd ei angen. Awgrymwyd llunio pecyn i'r cynghorau cymuned / tref fydd yn rhoi arweiniad o'r hyn sydd yn bosib ei ddarparu.
- O ran rhannu ymarfer da gwefannau sydd eisoes wedi eu sefydlu, nodwyd bod rhaid cadw'r wefan yn syml a diweddaru'r wefan yn gyson gan sicrhau gwybodaeth gyfredol.
- O ran yr iaith ddewisol ar gyfer y gwefannau, cynigiwyd mai mater i'r Cynghorau Cymuned yw hyn.

**PENDERFYNWYD parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygiad sefydlu gwefannau i gynghorau tref a chymuned yn ystod 2014/15.**

b) Mewn ymateb i ymddangosiad gwefan newydd y Cyngor, nodwyd yr angen i roi mwy o amlygrwydd i waith y Cabinet. Rhaid symleiddio'r mynediad er mwyn amlygu pwysigrwydd eu gwaith. Rhaid hefyd cael mynediad haws at gyfrifoldebau pob Aelod a'r pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt. Eglurwyd, bod y Cyngor wedi archebu system rheoli rhaglenni pwyllgorau (Modern Gov) fydd, mewn amser yn cynnwys Adran 'Democratiaeth'. Y bwriad yw cael y system yn ei le erbyn Pasg 2015. Bydd y rhaglen hefyd yn cynnwys ap i sicrhau bod rhaglenni yn cael eu lawr lwytho yn awtomatig i lechi Cynghorwyr

## 8. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd lle atgoffwyd y pwyllgor bod 20 aelod wedi derbyn Cyfweliad Datblygu Personol. O'r cyfweliadau, codwyd nifer o themâu cyffredinol, a'r bwriad yw eu cyfarch drwy'r rhaglen hyfforddiant cyfredol.

Yn ystod y drafodaeth:-

- Awgrymwyd y byddai'n fuddiol gweithredu ar wybodaeth 'pwy yw pwy' yn fuan er mwyn sicrhau gwybodaeth gyfredol. Awgrymwyd y gellid defnyddio Rhaeadr i gyfarch hyn.
- I'r rhai hynny oedd wedi cael cyfweliad, adroddwyd bod y cyfweliad wedi bod o fudd ac wedi amlygu gwendidau / anawsterau fuasai heb eu hamlygu fel arall. Anogwyd aelodau eraill i gymryd mantais o'r sefylfa.

**PENDERFYNWYD cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r pwyllgor hwn yn y misoedd nesaf ar ymateb yr 20 aelod i'r cyfweliadau datblygu personol a beth sydd wedi digwydd yn sgil y cyfweliadau.**

## 9. DARPARIAETH HYFFORDDIANT AR-LEIN

Yn sgil trafodaeth parthed adroddiadau blynyddol yr Aelodau, cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Dysgu a Datblygu ar ddarpariaeth hyfforddiant ar ffurf ar-lein i Aelodau. Eglurwyd bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant priodol i gefnogi Aelodau i gyflawni eu rolau yn effeithiol ac mae dysgu drwy dechnoleg erbyn hyn yn gyffrous a rhaid cymryd mantais ohono. Pwysleisiwyd bod yr e-ddysgu yn ychwanegol i'r rhaglen hyfforddiant aelodau;

- yn cynnig pob math o dechnoleg e.e., fideo, modiwlau, ymchwil ar y we ac yn y blaen
- defnyddio gwahanol ddyfeisiau megis, i-pad, smartphone, gliniaduron a chyfrifiaduron PC
- cyfle i greu deunyddiau dysgu diddorol a deniadol o'r ansawdd uchaf
- cynnig darpariaeth gyfleus, hyblyg yn rhoi gwerth am arian (drwy osgoi amser a chostau teithio)

Y cam nesaf fydd codi ymwybyddiaeth.

Yn ystod y drafodaeth:-

- gwnaed cais i ansawdd a chynnwys y modiwlau hyfforddiant fod yn syml a hawdd mynd ato gyda chefnogaeth a chyfarwyddyd (nodwyd y byddai sesiynau cychwynnol gyda Chydlynydd Hyfforddiant Aelodau yn rhoi blas o'r hyn fydd ar gael).
- Amlygwyd bod hyn yn cyfarch yr aelodau hynny sydd yn cael anawsterau mynychu hyfforddiant oherwydd ymrwymiadau gwaith.

Diolchwyd i'r Rheolwr Dysgu a Datblygu am y wybodaeth.

**10. DATBLYGU DEFNYDD I-PADS A HYFFORDDIANT**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid adroddiad ar ddatblygiadau mewn trefniadau hyfforddiant i wneud defnydd gwell o'r i-pad ac 'apps' i gefnogi'r defnydd. Adroddwyd bod cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda Phennaeth Ysgol Gynradd Llanrug i lunio pecyn hyfforddi oedd yn cynnwys pynciau yr oedd yr aelodau wedi eu hamlygu.

Yn ystod y drafodaeth:

- Adroddwyd bod angen sicrhau gwell defnydd o'r i-pads. Cydnabuwyd bod yr i-pad yn declyn gwych ar gyfer trefn a gwybodaeth a bod potential iddo gynnig mwy.
- Awgrymwyd bod angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddiau 'cyfryngau cymdeithasol'.

Nodwyd bod angen 5 am fod yn rhan o beilot o 'apps' er defnydd ar yr i-pads (i gynnwys swyddogion ac aelodau)

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.55am.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **Gwe-ddarlledu** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae System Gwe-ddarlledu y Cyngor bellach wedi ei osod ac rydym wedi dechrau gwe-ddarlledu ers Ionawr 2015.

2. Er mwyn paratoi at y gwe-ddarlledu cynhaliwyd dwy sesiwn Hyfforddiant:

   - 26 Tachwedd 2014, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi y gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor iddo. Roedd 41 yn bresennol yn cynnwys rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau.
   - 12 Ionawr 2015, Hyfforddiant gwe ddarlledu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion

3. Yn y sesiynau esboniwyd y rhesymeg dros gyflwyno'r system, adnabuwyd rhai o'r risgiau sydd ynghlwm â'i weithredu, trafodwyd canllawiau byr ar gyfer ymddwyn a rhai posibiliadau eraill o ran newid trefniadau cyfarfodydd y Cyngor.

4. Bellach, mae'r Cyngor wedi gwe-ddarlledu 5 o'i gyfarfodydd, fel a ganlyn:

| Dyddiad | Pwyllgor | Ffigurau Gwylio | |
|---|---|---|---|
| 12/01/2015 | Cynllunio | 236 | |
| 13/01/2015 | Cabinet y Cyngor | 105 | |
| 12/2/2015 | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau | 49 | * |
| 19/2/2015 | Cabinet y Cyngor | 51 | * |
| 24/2/2015 | Pwyllgor Craffu Cymunedau | 21 | * |

5. Gellir gwylio'r gwe-ddarllediad yn fyw ar safle we'r Cyngor yn ystod y cyfarfod, neu bydd ar gael yn yr archif o fewn 48 awr i'r darllediad byw, am gyfnod o hyd at 6 mis. Dyma'r cyfeiriad ar gyfer gwylio:

   https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorwyr-a-phwyllgorau.aspx

6. Noder for y rhelyw o'r gwylio yn digwydd trwy'r safle archif yn hytrach na gwylio darllediadau byw. Felly, er bod y ffigurau yn gywir ar yr amser cyhoeddi yr adroddiad, mae'r ffigurau nodwyd gyda * yn debygol o gynyddu.

7. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, mae rhai gwersi wedi dod i'r amlwg yn barod, gyda rhai materion technegol wedi codi ac wedi eu datrys, a rhai materion gweithdrefn angen eu haddasu ymhellach gan swyddogion. Amgaeir y canllawiau byr ar gyfer yr Aelodau er mwyn eu hatgoffa o'r ystyriaethau y dylid eu cymeryd wrth i Wynedd we-ddarlledu Cyfarfodydd.

8. Mae'n bwysig cofio mai 60 awr o amser darlledu sydd gan y Cyngor yn ol y cytundeb presenol. Mae'r pwyllgorau a nodir isod wedi eu hadnabod ar gyfer eu gwe-ddarlledu yn y chwarter nesaf:

| | |
|---|---|
| 05/03/2015 | Cyngor Llawn |
| 23/03/2015 | Pwyllgor Cynllunio |
| 16/04/2015 | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| 14/05/2015 | Cyngor Llawn |

9. Gwahoddir unrhyw sylwadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor ar y datblygiadau hyd yma.

ATODIAD A

# GWE-DDARLLEDU – RHAI CWESTIYNAU I I AELODAU

## A. Paratoi ar gyfer y cyfarfod

- A wyf wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod ac yn glir am y pwyntiau / cwestiynau yr wyf am eu codi?
- A wyf wedi meddwl os yw fy ymddangosiad yn cyfleu delwedd briodol ac addas?
- A wyf wedi cofio diffodd fy ffon symudol cyn i'r cyfarfod ddechrau i osgoi ymyrryd â'r signal?

## B. Yn y cyfarfod

### 1. Cais i siarad:-

Dylwn gofio bod y drefn yn y ddwy siambr yn wahanol:-

- Yn Siambr Dafydd Orwig, rwyf yn gwagu'r botwm "cais i siarad" a wedyn yn disgwyl am wahoddiad y Cadeirydd i gyfrannu
- Yn Siambr Hywel Dda, rwy'n ceisio tynnu sylw'r Cadeirydd trwy godi fy llaw, yn disgwyl am wahoddiad y Cadeirydd i gyfrannu, yn troi fy meicroffon ymlaen i siarad ar ôl derbyn gwahoddiad i siarad a wedyn yn ei ddiffodd ar ôl gorffen

DS Bydd sedd gosod ar fy nghyfer yn Siambr Hywel Dda ond gallaf symud yn Siambr Dafydd Orwig os wyf yn  mynd â fy ngherdyn gyda mi.

### 2. Wrth siarad

- A wyf yn siarad bellter rhesymol oddi wrth y meicroffon? (ddim yn rhy agos, ddim yn rhy bell)
- A yw tôn fy llais yn ddiddorol a rhesymol?
- A wyf yn ail-adrodd yr hyn y mae rhywun arall wedi gwneud yn barod?
- A wyf yn mynd yn rhy emosiynol am fy mod yn teimlo'n gryf ar fater a bod peryg y gwnaf ddweud rhywbeth y bydd yn edifar gennyf amdano?
- A wyf yn siarad yn eglur ac ar y cyflymder iawn heb ruthro'n ormodol fel bod rhywun sy'n gwrando (yn cynnwys cyfieithydd) yn cael trafferth fy nilyn?

### 3. Wrth wrando

- A wyf yn dangos parch at siaradwyr eraill, yn arbennig felly rhai sydd â safbwynt wahanol?
- A wyf yn gwrando'n iawn ac yn talu sylw i'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell gyfarfod, yn arbennig felly os wyf o fewn "shot" camera'r siaradwr ar y pryd?
- A wyf yn cael fy ngweld yn gwrando neu a wyf yn sibrwd gyda rhywun ar fater arall neu'n mynd allan am baned neu sgwrs?
- A wyf yn "chwarae" gydag unrhyw beth (llechen, biro neu declyn arall) allai dynnu sylw?

## C. Ar ôl y cyfarfod

- A wyf yn medru dysgu unrhyw beth am fy nelwedd gyhoeddus wrth ail-wylio'r gwe-ddarllediad?
- A wyf yn medru defnyddio'r gwe-ddarllediad i ledaenu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei drafod yn y Cyngor?

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **Anghenion Technoleg Gwybodaeth gan Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno diweddariad** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

<u>Anghenion Hyfforddiant ar i-pads</u>

1. Mae cryn nifer o sylwadau wedi eu gwneud gan Aelodau etholedig am yr angen am hyfforddiant pellach ar ddefnydd yr i-pads. Fe gododd hefyd yn ystod y cyfweliadau Datblygiad personol, mewn sesiwn hyfforddiant anffurfiol gyda'r Cabinet, ac mewn nifer o sgyrsiau anffurfiol gydag aelodau etholedig. Mae yr Uned Hyfforddiant ac Adran Technoleg Gwybodaeth y Cyngor wedi cynnig sesiynau hyfforddiant i'r aelodau dros y blynyddoedd, gyda nifer o aelodau wedi adrodd eu bod wedi bod o fudd.

2. Bellach, mae gofynion yr aelodau wedi datblygu yn hwy, gyda nifer eisiau gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer gwneud gwell defnydd o'r dechnoleg ee sut i ffeilio gwybodaeth ayyb.

3. I'r perwyl yma felly, mae'r Adran Technoleg Gwybodaeth wedi cysylltu gyda Mr Robin Williams, Prifathro Ysgol Gynradd Llanrug er mwyn darparu hyfforddiant pellach ar yr i-pads i'r aelodau. Mae Ysgol Gynradd Llanrug wedi bod yn flaenllaw iawn gyda defnydd o'r dechnoleg yma, ac felly yn dod ag arbenigaeth o ran defnyddiwr gyda nhw.

4. Mae dau ddyddiad posib wedi eu hadnabod ar gyfer trefnu sesiwn peilot (18 neu 25 Mawrth) gyda threfniadau yn cael eu datblygu yn awr i wahodd aelodau i'r sesiwn peilot. Cyfyngir y sesiwn peilot i oddeutu 10 aelod er mwyn sicrhau gwerth o'r sesiwn i bawb ac asesu ei addasrwydd.

<u>Prosesu Geiriau ar yr i-pads</u>

5. Bydd y Pwyllgor yn cofio iddynt wneud cais i geisio cael prosesydd geiriau ar yr i-pads er mwyn hwyluso gwaith yr aelodau. Penderfynwyd y byddai'n angenrheidiol treialu y defnydd o brosesydd geiriau ar yr i-pads gan griw bach yn gyntaf cyn rhannu'r ddarpariaeth, os oes angen ac os yw'n addas, gyda gweddill yr aelodau.

6. Adroddir diweddariad ar lafar ar yr elfen hon yn ystod cyfarfod y Pwyllgor.

Gofynion ychwanegol gan aelodau ar gyfer mynediad i dechnoleg gwybodaeth

7. Ar ddechrau tymor y Cyngor hwn yn 2012 darparwyd cyfarpar technoleg gwybodaeth symudol (i-pads) i aelodau etholedig er mwyn hwyluso eu gwaith ac er mwyn arwain at arbediad ariannol i'r Cyngor trwy leihau ar gostau argraffu a phostio.

8. Mae'r rhelyw o Aelodau wedi dysgu ymdrin a dygymod â'r i-pads yn ystod y cyfnod, a nifer yn gyfforddus iawn gyda'r dechnoleg. Mae trefniadau amgen yn parhau ar gyfer y rhai nad ydynt yn defnyddio'r i-pads. Yn ddiweddar, yn dilyn o'r llwyddiant hwn, mae ceisiadau wedi eu derbyn gan Aelodau etholedig ar gyfer sicrhau mynediad i wybodaeth drwy gwahanol gyfarpar technegol. Mae'r ceisiadau yn cynnwys:
    - Mynediad i system e-bost y Cyngor o gartref
    - Mynediad i'r system ar ffonau symudol

9. Ar yr un adeg, mae Adran Technoleg Gwybodaeth y Cyngor wedi gorfod newid eu systemau er mwyn sicrhau fod holl systemau cyfrifiadurol y Cyngor yn ddiogel ac yn saff. Mae'r newidiadau hyn yn golygu fod bellach gost ynghlwm â sicrhau mynediad ychwanegol i Aelodau i unrhyw fynediad ychwanegol i'r mynediad a drefnwyd trwy i-pads y cyngor (cost sefydlu o oddeutu £30 a chost blynyddol o oddeutu £30 y ddyfais).

10. Tra ein bod yn cyd-fynd gyda'r egwyddor fod darpariaeth o'r fath yn hwyluso bywyd Aelodau, yn wyneb y sefyllfa ariannol heriol bresenol, argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn penderfynu y dylid gwrthod ceisiadau o'r fath ar hyn o bryd, gan ail asesu os oes gofynion yn dilyn y sesiynau Hyfforddiant i-pads pellach (4 uchod).

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **Cyfweliadau Datblygu Personol** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

Cefndir

1. Bydd y pwyllgor yn cofio am yr angen i'r Cyngor gynnig trefn lle mae aelodau yn cael cynnig cyfweliad datblygu personol. Mae Mesur Llywodraeth Leol Cymru, 2012 yn mynnu bod pob cyngor yn cynnig proses i aelodau asesu eu hanghenion datblygu.

2. Yn dilyn trafodaethau blaenorol y pwyllgor hwn, gohebwyd â phob aelod sydd ddim ar y Cabinet i roi'r cynnig hwn iddynt. Bu i 20 o'r 65 aelod rheng-flaen dderbyn Cyfweliad Datblygu Personol yn ystod mis Medi a Hydref 2014.

Themâu hyfforddiant a gododd

4. Cododd rhai themâu cyffredinol o'r cyfweliadau, ac yn eu mysg:

- Gwybodaeth am pwy yw pwy / pwy i gysylltu â nhw
- Hyfforddiant gwella sgiliau iaith (Cymraeg)
- Datblygu hyder i siarad yn gyhoeddus
- Delio â sefyllfaoedd anodd
- Cadeirio cyfarfodydd yn fwy hyderus (yn arbennig yn wyneb gwe-ddarlledu)
- Twitter/ Facebook – sut i ddatblygu a defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- I-pads
- Paratoi ymgeiswyr sy'n sefyll fel aelodau etholedig am y tro cyntaf
- Mwy o hyfforddiant i aelodau newydd (ar ôl iddynt fod yn llwyddiannus)
- Gwe-ddarlledu

5. Noder fod rhai o'r themâu uchod eisoes yn cael eu cyfarch drwy'r rhaglen hyfforddiant gyfredol, a bu'r cyfweliadau yn fodd o godi ymwybyddiaeth at rhai o'r cyrsiau cyfredol.

Atodir tabl sydd yn adnabod y meysydd hyfforddiant yn deillio o'r cyfweliadau, a nodir hefyd yr hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu yn gyfredol neu sydd wrthi'n cael ei drefnu ar gyfer ateb y gofynion hynny.

Asesu’r Drefn

6. Yn ogystal rydym wedi ceisio asesu gwerth y broses o gyfweliadau datblygiad personol. Mae dwy elfen i’r darn yma o waith.

7. Yn gyntaf, rydym wedi ceisio sylwadau ar y broses ei hun. Cysylltwyd gyda’r Aelodau a fu’n rhan o’r broses i holi eu barn ynghylch oeddent yn gwerthfawrogi’r cyfle i gael sgwrs anffurfiol a chyfrinachol am anghenion datblygu a hyfforddiant (ac ambell beth arall)? Oedd y drefn yn rhy ffurfiol? Oes rhywbeth y gellid ei wneud i wella’r drefn?

8. Ychydig iawn o sylwadau a dderbyniwyd, ond roedd y sylwadau a ddaeth yn nodi bod yr Aelodau wedi gwerthfawrogi y cyfle i gael siarad yn anffurfiol am eu anghenion Hyfforddiant. Yn ogystal â hyn roedd nifer yn gwerthfawrogi’r cyfle i gael lleisio barn a chyflwyno syniadau ar sut i wneud pethau yn wahanol a gwell.

9. Yn ail, byddwn yn adrodd ar sut y mae’r Aelodau fu’n rhan o’r drefn wedi elwa o fod yn rhan o’r broses (os o gwbl). Mae’n parhau yn gynamserol i fod yn gwneud y darn yma o waith ar hyn o bryd. Mae angen ychydig mwy o amser fel bo mwy o Hyfforddiant wedi ei gynnal a mwy o gyfle i Aelodau gael adlewyrchu yn iawn ar y sefyllfa. Bydd y gwaith yma yn digwydd mewn ychydig o fisoedd ac adroddir y canfyddiadau i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd maes o law.

| Aelod / Member | Cyfryngau Cymdeithasol / Social Media | Gwe-ddarlledu / Web-casting | Her ariannol / Cyfnod anodd / Newid Gwasanaethau. Financial challenge / changing services / difficult times. | Newidiadau Llywodraeth Leol. / Changes in Local Government | Hyfforddiant ar-lein ar bolisiau ayb. On-line training on policies etc | Rheoli Amser a rheoli straen. Time and stress management. | Rheoli pobl / gwrthdaro / pobl anodd. Managing difficult people, situations. Assertiveness. Pendantrwydd | Cadeirio / Chairing | Cynllunio/ Planning | Holi a chraffu effeithiol / Effective scrutiny and questioning. | Adroddiadau Blynyddol/ Annual Reports | Defnydd o'r I-pad / TG. IT/ Use of I-pads | Siarad cyhoeddus / Public Speaking | Leadership Academy | Delio a'r Wasg / Dealing with the press. | Gloywi Iaith./ Improving Language | Rol Aelod Lleol / Local Member Role | Ymddygiad / Conduct | Trefn 360 gradd/ 360 degree assessment | Cysgodi / Shadowing |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | | 1 | | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | | | | | | | | | | |
| 3 | | 1 | 1 | 1 | | | | | | | 1 | | | | | | | | | |
| 4 | 1 | 1 | | | | | | | | | | 1 | 1 | | | | | | | |
| 5 | 1 | 1 | 1 | | | | 1 | 1 | | | | 1 | | 1 | | | | | | |
| 6 | | 1 | 1 | | | | 1 | | | | | 1 | | | 1 | 1 | | | | |
| 7 | | | 1 | | | | | 1 | | | | | | | | | 1 | | | 1 |
| 8 | | | | | | | 1 | | | | | | | | | 1 | | | | |
| 9 | | | 1 | | 1 | 1 | | 1 | | | | | | | | | | 1 | | |
| 10 | | | | | | | | | | | | | | 1 | | | | | | |
| 11 | | | 1 | | | | | | | | | 1 | | | | | | | 1 | |
| 12 | | | | | | | 1 | | | | | 1 | | | | | | | | |
| 13 | | | 1 | | | | 1 | | | | | 1 | | | | | | | | 1 |
| 14 | | | 1 | | | | | 1 | | | | | | | | | | | | |
| 15 | | | 1 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 16 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 17 | | | 1 | | | | | 1 | 1 | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM / total** | **3** | **6** | **11** | **3** | **3** | **2** | **6** | **6** | **2** | **1** | **1** | **6** | **1** | **2** | **1** | **2** | **1** | **1** | **1** | **2** |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Gofynion Cyffredinol/ general requirements** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Gwybodaeth am Wasanaethau/ information about services | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y Drefn - paratoi cyn etholiad. Pre-election preparation | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleoedd Rhwydweithio / Adeiladu consensws.Networking, concensous building opportunities | 2 | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| wedi derbyn hyfforddiant/ training provided | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Wedi cofrestru ar hyfforddiant/ registered for training. | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| Teitl | Gweithred | Pwy |
|---|---|---|
| Cyfryngau Cymdeithasol/Social Media | 1 Sesiwn Saesneg wedi cael ei gynnal yn barod. WLGA wedi cadarnhau eu bod wedi dod o hyd i ddarparwr Cymraeg - Cara i drefnu. 1 English Language session held, WLGA have confirmed a Welsh speaking provider - Cara to confirm.<br>dyddiad yn y misoedd nesaf, | Cara |
| | 1 English Language session held, WLGA have confirmed a Welsh speaking provider - Cara to confirm. | |
| Gwe-ddarlledu/Web-casting | Sesiwn wedi ei gynnal ar 26 Tachwedd a sesiwn pellach i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion wedi ei gynnal ar 12/1/15 yn dilyn cais gan Aelodau. | AEJ |
| | Session held on 26 November and a further session held on 12/01/2015 for Chairs and Vice-Chairs following request by Members. | |
| Her ariannol/cyfnod anodd/newid. Financial challenge / changing services / difficult times. | Sesiynau yn digwydd yn Chwefror 2015 | DLE |
| | Sessions to be held in February 2015 | |
| Newidiadau Llywodraeth Leol / Changes in Local Government | Sesiynau wedi digwydd ddiwedd 2014 | AEJ |
| | Sessions held end of 2014 | |
| Hyfforddiant ar lein / On-line training on policies etc | Ar y gweill. Bydd neges yn mynd allan gyda cyfres o fodiwlau i ddilyn. | Cara |
| | Developments underway. Message to all members soon with a series of modules to follow | |
| Rheoli Amser ag Ymdopi efo Straen / Time and stress management. | Sesiwn wedi ei drefnu ar 17 Ebrill 2015 gyda 12 Aelod wedi rhoi eu henwau ymlaen gyda Gwen Greaves | Ar y gweill |
| | Session organised for 17 April 2015 with 12 members registered - with Gwen greaves | |
| Pendantrwydd a Delio hefo Pobl Anodd / Managing difficult people, situations. Assertiveness | Sesiwn hyfforddiant wedi ei drefnu ar 20ain o Fawrth gyda Gwen Greaves - yr un 12 Aelod yn mynychu hwn a'r un Pendantrwydd. | Ar y gweill |
| | Session arranged for 20 March with Gwen Greaves - the same 12 members registered as for above. | |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol / Effective Chairing | 2 sesiwn (Saesneg)wedi ei gynnal (2/10/13 a 16/4/14). Cara yn disgwyl ymateb gan y WLGA os oes modd cael darparwr Cymraeg. | Cara |
| | 2 English Language sessions held (2/10/13 and 16/4/14). Cara awaiting response re Welsh Language provider from WLGA. | |
| Cynllunio / Planning | Pennaeth Rheoleiddio wedi cadarnhau bod y Gwasanaeth yn barod i ddarparu hyfforddiant cyffredinol i Aelodau ar faterion cynllunio - cynnal rhain 2 waith y flwyddyn mewn grwpiau bach i bawb fydda'i â diddordeb. | Cara |
| | Head of Regulatory Services has confirmed that the service will provide general training to Elected Members on planning issues - to be held twice a year in small groups. | |
| Holi a chraffu effeithiol / Effective scrutiny and questioning. | | |
| | | |
| Adroddiadau Blynyddol / Annual Reports | I'w drafod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | Vera |
| | To be discussed by the Democratic Services Committee. | |
| Defnydd o'r I-pad / IT/ Use of I-pads | Trefniadau ar y gweill gydag Ysgol Llanrug i gynnig hyfforddiant i'r Aelodau sydd wedi datgan diddordeb. Efallai y byddai hyn yn gyfle i hybu e-Gwynedd a dysgu ar lein. | Vera |
| | Arrangements being made with Llanrug school to provide training for members who have expressed an interest. This may be an opportunity to promote e-learning. | |
| Siarad Cyhoeddus / Public Speaking | WLGA yn cynnig yr hyfforddiant yma ond gan mai ond un Aelod sydd wedi dangos diddordeb, ni fyddai'n cyfiawnhau trefnu cwrs. Cara wedi cysylltu a'r Cynghorydd gan ddweud bod hyfforddiant 'Cyflwyniadau Effeithiol' ar gael fyddai'n help o ran gallu cyflwyno, iaith corff, hunan hyder ayyb. | Cara |
| | WLGA do offer training, bus as only one member has expressed an interest we cannot currently run the course. Cara has contacted the ember to let them know that they may benefit from a similar training course - Effective presentations, which deals with body language, self confidence etc | |
| Leadership Academy | | |
| | | |
| Delio a'r Wasg / Dealing with the press. | Cara i drefnu sesiwn pellach eleni cyn belled a bod 6 yn mynychu. | Cara |
| | Cara to organise a further session, with a minimum of 6 members. | |
| Gloywi Iaith / Improving Language | Catrin Parri wedi cysylltu a'r Cynghorwyr. Arweiniad ar gael gan Catrin Parri pe bai unrhyw Aelod a diddordeb mewn hyfforddiant ieithyddol priodol. | |
| | Catrin Parri has contacted the individual members. Catrin willing to discuss with any members with regards to language issues. | |
| Rol Aelod Lleol / Local Member Role | Angen datblygu hyfforddiant yn fewnol. | Arwel/Vera |
| | Internal training session to be developed. | |
| Ymddygiad/ Conduct | Angen datblygu hyfforddiant yn fewnol. | |
| | Internal training session to be developed. | |
| Trefn 360 gradd/ 360 degree assessment | Ddim yn bodoli ar hyn o bryd. | |
| | Not currently available | |
| Cysgodi/ Shadowing | Ddim yn bodoli ar hyn o bryd. | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **Ymgysylltu gydag aelodau** |
| **PWRPAS** | **Ceisio arweiniad pellach ar argymhellion penodol** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

**CEFNDIR**

1. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cofio i mi adrodd o'r blaen ar gomisiwn gan y pwyllgor hwn a'r Panel Cyflawni Gofal Cwsmer i wneud gwaith ar ein trefniadau ar gyfer ymgysylltu ag aelodau. Roedd hyn yn sgil ymgynghori gydag aelodau (mewn gweithdai a thrwy holiadur) am y trefniadau a oedd yn amlygu nifer o negeseuon allweddol:-

   - Bod cydweithio da rhwng swyddogion ac aelodau ar y cyfan ond ei fod yn anghyson
   - Methiant i ddefnyddio gwybodaeth leol cynghorwyr yn effeithiol
   - Gwir angen gwella a gwneud defnydd o aelodau yn y ddeialog anodd gyda'r cyhoedd.

2. Yn dilyn y trafodaethau cychwynnol hynny, sefydlwyd grwp tasg ar y cyd o swyddogion (yn gyfarwyddwyr, penaethiaid ac ymarferwyr yn y maes) ac aelodau etholedig (yn cynnwys aelodau cabinet ac aelodau rheng flaen).

3. Cyfarfu'r Grwp Tasg ar ddau achlysur. Yn y cyfarfod cyntaf, dadansoddwyd yr elfennau positif a heriol o ran y berthynas rhwng aelodau a swyddogion ac adnabuwyd 11 maes lle y gellir cynnig gwelliannau. Fodd bynnag, mae'n deg nodi bod cryn amrywiaeth rhyngddynt o ran maint a chymlethdod a bod amryw o'r meysydd hynny'n gor-gyffwrdd.

4. Dylwn nodi, wrth basio, bod y drafodaeth yn y Grwp Tasg wedi bod yn un buddiol a gonest iawn gydag aelodau a swyddogion yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod yn onest ac agored ar faterion yn ymwneud er engraifft â materion fel ymddiriedaeth.

5. Yn yr ail gyfarfod, cytunwyd bod gormod o ran y meysydd i roi sylw ystyrlon iddynt a am y tro ac y dylid canolbwyntio ar ddau brif fater, y naill yn fawr a strategol a'r llall yn llai a mwy gweithredol ei natur.

**CYNIGION PENODOL**

6. Newidiadau Mawr / Her Gwynedd – Dyma’r prif faes y mae angen canolbwyntio arno yn y dyfodol agos. Yr egwyddor sylfaenol yma yw y dylid ceisio dod ag aelodau rheng flaen i fewn i drafodaethau am newidiadau mawr ac arwyddocaol mor fuan â phosib. Nodwyd bod risg yn hynny o beth gan bod peryg bod aelodau yn medru mynd at y Wasg neu’r Cyfryngau Cymdeithasol cyn bod materion yn aeddfed

   <u>Camau Gweithredu Penodol</u>:-
   a) Ymrwymiad i ddefnyddio craffu ymlaen llaw yn fwy aml a bod deialog cyson rhwng Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Craffu ynglyn â materion y gellid ymdrîn â hwy yn y ffordd hynny
   b) Ymrwymiad gan Aelodau Cabinet a swyddogion i gynnwys yr holl aelodau lleol allai gael eu heffeithio mewn trafodaethau am newidiadau arwyddocaol mewn rhai meysydd DS Soniwyd am ymrwymo hyn ar gyfer 10 uchaf gan ymddiried y gweddill i’r trefniadau gweithredol isod
   c) Ymrwymiad gan aelodau unigol i barchu ymddiriedaeth a chyfrinachedd nes y mae cynigion newid yn aeddfed i’w cyhoeddi ac ymgynghori amdanynt

7. Trefniadau Cyswllt Gweithredol – Diffygion yn y maes hwn sydd yn achosi’r rhwystredigaeth fwyaf i aelodau gyda phethau yn digwydd o fewn eu hetholaethau heb iddynt wybod amdanynt nes bod hanes yn ymddangos yn y Wasg neu bod un o’r trigolion yn gofyn i’r aelod beth sydd wedi digwydd. Mae nifer hefyd wedi mynegi rhwystredigaeth nad ydynt yn gwybod efo pwy i gysylltu ar faterion gwahanol.

   <u>Camau Gweithredu Penodol</u>:-
   a) Annog aelodau i wneud defnydd, yn y lle cyntaf, o Galw Gwynedd oherwydd effeithlonrwydd trefn tracio Galw Gwynedd ar gyfer ymholiadau
   b) Uned Gyfathrebu i ddiweddaru rhestr o bwyntiau cyswllt allweddol ar y wefan gan gyhoeddi (trwy Rhaeadr) le mae hynny ar gael
   c) Pob adran i atgoffa swyddogion i gynnwys aelodau lleol wrth rannu gwybodaeth am faterion lleol a gweithredol sydd ar waith o fewn eu wardiau

8. Gwahoddir y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i ystyried a chymeradwyo’r camau gweithredu uchod.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **DOGFEN YMGYNGHOROL AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL** |
| **PWRPAS** | **Ceisio sylwadau aelodau ar bapur ymgynghorol** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Yn dilyn cryn drafod sydd wedi bod dros y misoedd diwethaf am ad-drefnu llywodaeth leol, mae Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus bellach wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar Ddiwygio Llywodaeth Leol. Mae'r ddogfen yn amlinellu nifer o newidiadau y mae'r Llywodraeth yn eu hystyried o ran trefn a phatrwm awdurdodau lleol yng Nghymru.

2. Gwahoddir sylwadau ar y ddogfen erbyn 28 Ebrill, 2015. Anfonwyd nodyn allan i bob aelod, trwy Rhaeadr yn nodi bod croeso, wrth gwrs, i gynghorwyr unigol neu grwpiau gwleidyddol gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol. Anfonwyd copi o'r fersiwn cryno o'r ddogfen ymgynghorol (sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn) a'r daflen ymateb iddo i bob aelod. Mae copi cyflawn o'r adroddiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/consultation/150203-power-to-local-people-fullv2-cy.pdf

3. Y drefn ffurfiol o ran syl;wadau gan y Cyngor yw bod y mater yn derbyn sylw yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a hefyd yn y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 26 Mawrth cyn i'r Cabinet ar 14 Ebrill gymeradwyo sylwadau'n ffurfiol ar ran y Cyngor.

4. Rhoddwyd cyfle i aelodau sydd ddim yn aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd na'r Pwyllgor Craffu i gyfrannu mewn dau ffordd yn ôl eu dymuniad, sef:-
   - Anfon sylwadau ysgrifenedig er mwyn iddynt dderbyn sylw yn y cyfarfodydd
   - Gwneud cais i fynychu'r naill gyfarfod neu'r llall er mwyn cyfrannu at y drafodaeth

5. O ran y ddogfen ei hun, tra ei fod yn eang iawn yn ei gwmpas, mae'n addas iawn bod y Pwyllgor hwn yn rhoi sylw i nifer o elfennau ohonno. Felly, yn ogystal â chael y cyfle i gyfeirio sylwadau cyffredinol am y ddogfen i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet, gwahoddir sylwadau gan y Pwyllgor hwn ar y materion a ganlyn sydd ynglyn â rolau cynghorwyr yn benodol:-

   Paragraff 3.1 – Etholiadau'r Cyngor – mae awgrym o symud i drefn o etholiadau cyfnodol neu aros efo trefn o etholiadau bob pedair neu bum mlynedd

Paragraff 3.2 – Rôl a Chyfrifoldebau Arweinydd – mae awgrym o osod dyletswydd ar Arweinydd i benodi Cabinet o gefndiroedd gwahanol fel bod llawer o wahanol safbwyntiau'n cael eu cynrychioli

Paragraff 3.4 – Rôl a Chyfrifoldebau Cynghorwyr – mae awgrym o newid y gyfraith i wneud yn siwr bod Cynghorwyr yn cyhoeddi adroddiad blynyddol

Paragraff 3.5 – Amrywiaeth Ymhlith Cynghorwyr – mae awydd i osod gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith corff y cynghorwyr etholedig ac i sicrhau bod Cynghorau'n agored, yn groesawgar ac yn parchu gwahaniaethau.

Paragraff 3.6 – Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr – mae son am gomisiynu adolygiad o'r ffordd orau i dalu Cynghorwyr gan bod y drefn bresennol yn effeithio'n wahanol ar bobl

Paragraff 3.7 – Nifer y Cynghorwyr – mae cwestiwn yma a ddylid cwtogi ar y nifer o gynghorwyr a pha ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar y nifer iawn

Paragraff 3.8 - Cyfyngu ar Nifer y Tymhorau y caiff Cynghorwyr Wasanaethu – dyma'r awgrym mwyaf dadleuol sydd wedi cael sylw yn gyhoeddus hyd yma, sef awgrym o gyfyngiad o bum tymor i Gynghorwyr, a dau dymor i Arweinwyr, Meiri Etholedig ac Aelodau Cabinet

Paragraff 3.9 – Ad-alw Cynghorwyr – mae awgrym o gyflwyno trefn fel y byddai'n rhaid i gynghorydd ymddiswyddo o'u sedd pe byddai 10% o'r bobl yn eu hardal yn llofnodi deiseb yn galw am hynny (o fewn amodau penodol)

Paragraff 3.10 – Cymhwysedd Etholiadol – mae awgrym o lacio rhai o'r rheolau o gwmpas sefyll etholad er engraifft fel bod swyddog llywodraeth leol yn medru sefyll etholiad i fod yn gynghorydd

Paragarff 4.2 - Llywodraethu Cymunedol a arweinir gan Aelodau – mae awgrym o sefydlu trefn o Fyrddau Ardal, fyddai'n cynnwys elusennau, cyrff cymunedol, mentrau cymdeithasol a gwasanaethau, cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cynghorau Cymuned gyda chynghorwyr sir lleol yn arwain y byrddau hynny

Paragraff 4.6 - Cynghorwyr Cymuned yn gwasanaethu ar fwy nag un Cyngor – gwahoddir sylwadau ar y posibilrwydd o atal yr un person rhag gwasanaethu ar Brif Gyngor a Chyngor Cymuned, ac ar fwy nag un Cyngor Cymuned

6. Gwahoddir sylwadau'r Pwyllgor

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Datganoli, Democratiaeth
a Chyflawni

www.cymru.gov.uk

# Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol (Crynodeb Pob Dydd)

Dyddiad cyhoeddi: 3 Chwefror 2015
Angen gweithredu erbyn: 23:59 ar 28 Ebrill 2015



**Trosolwg**

Y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol yw datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae Papur Gwyn yn gosod allan y newidiadau mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud i'r gyfraith fel bod gan bobl gyfle i ddweud eu barn cyn bo hynny'n digwydd.

Mae'r papur hwn yn grynodeb o'r prif newidiadau yr hoffem ni eu gwneud, ond nid dyma'r Papur Gwyn ei hun. Gallwch ddefnyddio'r papur hwn fel sail i ddweud eich barn ond am yr holl fanylion dylech gyfeirio at y Papur Gwyn sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy

**Sut i ymateb a manylion cysylltu**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nifer helaeth o faterion. Mae llawer ohonynt o ddiddordeb i'r cyhoedd ond mae rhai ohonynt yn dechnegol ac mae'n bosibl mai dim ond Awdurdodau Lleol fydd â diddordeb ynddynt. Rydym wedi creu holiadur ar y we er mwyn ei gwneud yn haws i ni gasglu ymatebion a'u dadansoddi.

Gallwch ddewis ymdrin â'r holl faterion a godir gan y Papur Gwyn hwn neu gallwch ddewis cwblhau fersiwn fyrrach o'r holiadur, sy'n canolbwyntio ar y prif faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Byddwch yn gallu dewis yr opsiwn yr ydych yn ei ffafrio pan fyddwch yn dechrau llenwi'r holiadur. Mae fersiwn Word ar gael hefyd ond byddem yn eich annog yn daer i ddefnyddio'r fersiwn sydd ar-lein.

I ymateb i'r ymgynghoriad cwblhewch y ffurflen sydd ar-lein neu gofynnwch am yr holiadur ar ffurf Word sy'n cyd-fynd â'r Papur Gwyn, cwblhewch yr holiadur a dychwelwch ef:

naill ai drwy e-bost i'r cyfeiriad canlynol: RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk

neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:
Diwygio Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

OGL

© Hawlfraint y Goron 2015
WG24127

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Mae'r Papur Gwyn cyflawn a fersiwn sy'n addas i bobl ifanc ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill os gofynnir amdanynt.

**Diogelu data**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad 9

2. Cydbwyso Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol 11

3. Adnewyddu Democratiaeth 15

4. Cysylltu â Chymunedau 20

5. Grym i Gymunedau Lleol 23

6. Llywodraethu Corfforaethol a Gwella 25

7. Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol 27

8. Cryfhau Rôl Gwaith Adolygu 29

9. Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol 31

10. Casgliad 32

## Rhagair y Gweinidog – Ein gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru



O ymweld ag Archifau Gwent yn eu cyfleuster newydd bendigedig yn Swyddfeydd Cyffredinol yr hen waith dur yng Nglynebwy, gallwch ddarllen cofnodion Cymdeithas Cymorth Meddygol Gweithwyr Tredegar lle bu'r Cynghorydd Aneurin Bevan a'i gydweithwyr yn ceisio cyflwyno atebion cydweithredol ym maes iechyd ar gyfer eu cymuned leol. Mae'r cofnodion hynny'n ein hatgoffa bod Llywodraeth Leol yng Nghymru, ar ei gorau, bob amser wedi bod yn weithredol ac wedi ymgysylltu'n gydweithredol â chymunedau lleol er mwyn dod o hyd i atebion ar y cyd i broblemau.

Rydym yn awyddus i bob un o'n Cynghorau fod yn Gynghorau gweithredol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus modern a hygyrch o safon ar y cyd â'u cymunedau. Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau, rydym wedi ystyried y profiad rhyngwladol gorau ac wedi manteisio ar brofiadau'r mudiad cynghorau cydweithredol yn y DU. Ond ni ddylem fyth anghofio bod Cymru bob amser wedi arloesi ym maes modelau cydweithredol, yn ystod oes Aneurin Bevan a heddiw. Mewn 11 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru, pleidleisiodd tenantiaid o blaid cael cwmnïau cydfuddiannol cymunedol neu fentrau cymdeithasol i reoli eu tai cymdeithasol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn deddfu ar gyfer creu modelau cydweithredol a chydfuddiannol ym maes gofal cymdeithasol.

Yn y Papur Gwyn hwn rydym yn egluro telerau bargen newydd ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Dros 15 mlynedd ar ôl sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, mae'n bryd ail-lunio'r berthynas rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol yng Nghymru. Bydd ein bargen newydd ar gyfer Llywodraeth Leol, sydd wedi'i seilio ar nifer llai o Gynghorau cryfach, yn arwain at Lywodraeth Genedlaethol yng Nghymru sy'n pennu nifer bach o flaenoriaethau cenedlaethol clir, yn dilyn hynt Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014, gan alluogi Llywodraeth Leol i bennu'r rhan fwyaf o flaenoriaethau lleol gyda phobl leol.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Leol yng Nghymru dan bwysau difrifol ar hyn o bryd o ganlyniad i bolisïau cynilo Llywodraeth y DU a'r galw cynyddol am wasanaethau. Nid yw'n gyfnod hawdd i neb ym maes Llywodraeth Leol, boed yn Gynghorwyr neu'n weithwyr Cynghorau. Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn caniatáu i Lywodraeth Leol ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol a dysgu o'r arfer gorau – arfer dibynadwy'n ogystal ag arfer arloesol – sy'n gysylltiedig â gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ledled Cymru.

Yn y cyfamser rhaid i ni sicrhau bod Cynghorau lleol yn cynrychioli pob agwedd ar gymunedau lleol. Mae arnom angen ystod o Gynghorwyr sy'n fwy amrywiol o lawer. Mae sicrhau hynny'n her uniongyrchol i arweinwyr Llywodraeth Leol. Mae Cynghorau lleol sy'n adlewyrchu cymunedau lleol yn fwy tebygol o ennyn ymddiriedaeth y cymunedau hynny pan fydd yn rhaid i arweinwyr lleol wneud penderfyniadau anodd. Dylem fod yn ei gwneud yn haws i bobl newydd ymuno â Llywodraeth Leol ar lefel Cyngor Tref neu Gymuned ac ar lefel Prif Gyngor. Rhaid i ni sicrhau nad yw'r system lwfansau ar gyfer Cynghorwyr yn golygu bod Aelodau Cabinet a'r sawl sy'n cael taliadau am gyfrifoldebau uwch yn dod yn rhan arall o'r fiwrocratiaeth a delir. Dylem fod yn ceisio lleihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth ym maes Llywodraeth Leol.

Ar adeg pan fo sefydliadau ym maes gwasanaethau cyhoeddus ledled y byd yn dysgu nad yw'r hen ffyrdd o wneud pethau'n ddigonol ar gyfer y dyfodol, mae gan Gymru gyfle i achub y blaen ar bawb arall os ydym yn effro i'r posibilrwydd o wneud hynny. Os ydym am ail-lunio ein gwasanaethau cyhoeddus ac ail-lunio ein hardaloedd lleol, mae angen i ni weld arweinyddiaeth gref ac addasol ar draws pob un o'n gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Leol.

Rydym yn uchelgeisiol o safbwynt Llywodraeth Leol yng Nghymru ac o safbwynt ein cymunedau lleol. Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru ac yn esbonio sut y byddwn yn symud y cynigion hyn yn eu blaen.



**Leighton Andrews AC**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau'r gorau i Gymru ac i'r bobl sy'n byw yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym o'r farn bod yn rhaid i Gynghorau yng Nghymru newid. Rydym wedi manylu ar ein rhesymau a'n cynigion ar gyfer newid mewn Papur Gwyn o'r enw Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol. Mae Papur Gwyn yn manylu ar y newidiadau y mae Llywodraeth Cymru eisiau eu gwneud i'r gyfraith fel eich bod yn gallu rhoi'ch barn arnynt cyn iddynt ddigwydd. Fersiwn fyrrach o Grym i Bobl Leol yw hwn, yn dwyn sylw at y prif newidiadau rydym eisiau eu gwneud.

Rydym nawr eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ar hyn.

### 1.1 Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod pobl yng Nghymru'n cael eu gwasanaethu gan Gynghorau cyfrifol sy'n gwrando ar bawb yn eu hardal, sy'n cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac sy'n atebol am ddarparu gwasanaethau o ansawdd da.

### 1.2 Pam y mae angen i bethau newid

Mae Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol, a hefyd Awdurdodau Lleol, yn enwau eraill ar Gynghorau. Mae yna 22 ohonynt yng Nghymru. Mae gan Gyngor hyd at 75 o Aelodau Etholedig (neu Gynghorwyr) sy'n sefyll i gael eu hethol bob 4 blynedd. Y grŵp hwn o hyd at 75 o aelodau yw'r corff llywodraethu neu'r "Cyngor llawn". Os ydych chi dros 18 oed ac yn bwy neu'n gweithio yn yr ardal, gallwch chi bleidleisio mewn etholiadau Cyngor a sefyll i gael eich ethol fel Cynghorydd.

Bob blwyddyn yng Nghymru, mae Cynghorau'n gwario rhyw £8 biliwn. Daw mwy na hanner yr arian hwn ar ffurf grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Daw'r gweddill o'r dreth gyngor, ffioedd, taliadau a ffynonellau eraill. Gyda'r arian hwn, mae Cynghorau'n darparu amrywiaeth anferthol o wasanaethau bob dydd, gan gynnwys:

- Ysgolion cynradd ac uwchradd;
- Gwasanaethau cymdeithasol, sy'n cynnwys gwasanaethau i deuluoedd a phlant, mabwysiadu a maethu, pobl anabl, a phobl hŷn;
- Gwasanaethau ieuenctid;
- Ailgylchu a chasglu sbwriel;
- Cynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd a glanhau'r strydoedd;
- Canolfannau hamdden;
- Trwyddedu gwerthu alcohol a thybaco;
- Gwneud yn siŵr bod gan gaffis a bwytai geginau glân a hylan;
- Rheoli lle mae tai, swyddfeydd a ffatrïoedd newydd yn cael eu hadeiladu;
- Tai;
- Llyfrgelloedd; a
- Rhandiroedd.

Mae Cynghorau'n wynebu pwysau anferthol. Mae poblogaeth Cymru'n heneiddio ac, yn ogystal â bod yn beth da (rydym i gyd eisiau byw yn hirach), mae hyn yn gallu rhoi gwasanaethau Cyngor dan bwysau. Mae ein disgwyliadau o ran ansawdd gwasanaethau'n codi. Ar yr un pryd, er bod swm yr arian sydd gan Gynghorau i'w wario'n dal i gynyddu rhyw fymryn, mae'n bendant eu bod dan bwysau ariannu difrifol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn derbyn llai oddi wrth lywodraeth y DU. Mae hyn yn debygol o barhau am gryn amser, felly mae'n rhaid gwneud rhywbeth.

Fe ofynnodd Llywodraeth Cymru i grŵp o arbenigwyr, o'r enw y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, wneud argymhellion ynglŷn â'r hyn y dylem ei wneud. Gwnaethom gytuno â'r rhan fwyaf o ddarganfyddiadau'r comisiwn ac mae Grym i Bobl Leol yn manylu ar gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r ffordd y mae Cynghorau'n gweithio. Pan fydd pawb wedi cael cyfle i ddweud eu dweud, fe fyddwn yn cynhyrchu Bil drafft (cyfraith rydym yn cynnig gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ei phasio). Bydd y Bil yn manylu ar sut bydd y newidiadau'n gweithio. Bydd pawb yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y Bil drafft cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2016.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol, cyfeiriwch at y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 2. Cydbwyso Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol

Mae'n bwysig bod pawb yn deall rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol.

Mae Cynghorau'n gwneud eu penderfyniadau eu hunain yn lleol ac maent yn atebol i bobl leol ond, yn achos rhai o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, mae'n rhaid iddynt hefyd ateb gofynion y mae Llywodraeth Cymru'n eu gosod arnynt. Ein rôl ni yw gosod polisi a safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau allweddol megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwastraff a chynllunio. Mae hyn yn bwysig, fel bod pobl yn gallu disgwyl gwasanaeth o'r un ansawdd da, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru. Os nad yw Cynghorau'n darparu gwasanaethau i'r safonau hyn, gall Gweinidogion Cymru gamu i mewn a gweithredu.

### 2.1 Rôl Bresennol Cynghorau

Mae rôl Cynghorau wedi bod yn newid byth a hefyd, a bydd yn parhau i newid gydag amser. Mae gan Gynghorau:

- **swyddogaethau a grymoedd gorfodol** (pethau y mae'n rhaid iddynt eu gwneud) megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol, diogelu plant, casglu gwastraff, tai a thrafnidiaeth leol;
- **grymoedd disgresiwn** (pethau y gallant eu gwneud) megis hybu datblygiad economaidd, y celfyddydau, diwylliant, hamdden, chwaraeon a thwristiaeth; a
- **swyddogaethau a grymoedd rheoleiddio** (pethau y maent yn eu gwneud i ddiogelu'r cyhoedd) megis safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, trwyddedu gwerthu alcohol a thybaco, trwyddedu tacsis ac ati.

Y peth pwysicaf yw bod Cynghorau'n llwyddiannus, nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu cael arweinyddiaeth dda a chryf.

### 2.2 Cydweithio

Os yw gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl, mae angen i ddarparwyr gwasanaeth gydweithio. Mae hyn yn cynnwys Cynghorau, y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG), yr heddlu, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Er enghraifft, bydd angen i'r GIG a'r Cyngor gydweithio pan fydd rhywun yn dod allan o'r ysbyty ac y bydd angen help arno gartref.

Hefyd, mae angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio mewn meysydd eraill sydd yn y cefndir. Gall rhannu gwasanaethau 'cefn swyddfa', fel gofod swyddfa, ynni, TGCh a systemau ariannol, a gwasanaethau proffesiynol, helpu i gwtogi ar gostau.

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd y gall Cynghorau weithio gyda phartneriaid, er enghraifft:

- Mae Cynllun Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Partneriaeth yn helpu Llywodraeth Genedlaethol a Lleol i gydweithio.
- Mae byrddau gwasanaethau lleol yn dod â holl brif wasanaethau cyhoeddus mewn ardal Cyngor at ei gilydd i benderfynu beth yw'r prif flaenoriaethau; ac
- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn helpu Cynghorau i weithio gyda phartneriaid i gadw plant yn ddiogel ac i ofalu am bobl hŷn.

### 2.3 Gweithio Rhanbarthol a Dinas-ranbarthau

Mae'n rhaid i Gynghorau hefyd weithio gyda Chynghorau cyfagos i ddiwallu anghenion rhanbarth. Mae'r math hwn o waith eisoes yn mynd rhagddo mewn llawer o feysydd, megis gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau maethu a mabwysiadu, a gwasanaethau troseddau ieuenctid a chamddefnyddio alcohol a sylweddau.

Mae hefyd yn bwysig ar gyfer swyddi. Mae pobl yn aml yn byw yn ardal un Cyngor ac yn gweithio mewn dinas gerllaw, megis Caerdydd, Abertawe neu Gasnewydd. Gyda buddsoddiad newydd, ystyrir mai ein dinasoedd yw'r brif ffynhonnell swyddi newydd a thwf ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae hyn yn golygu bod angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â Chynghorau, busnesau preifat a mudiadau gwirfoddol. Rydym eisoes wedi dechrau'r gwaith hwn trwy sefydlu Byrddau Dinas-ranbarthau i ddarparu arweinyddiaeth yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd.

### 2.4 Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy yng Nghymru

Mae Bil newydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n ei ystyried ar hyn o bryd, yn manylu ar fframwaith ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl heddiw ac yn y dyfodol. Mae'r Bil:

- yn manylu ar nodau a mesurau cenedlaethol ar gyfer cynnydd;
- yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy; megis meddwl am y tymor hir, cydweithredu, canolbwyntio ar atal a gweithio gyda'r cyhoedd;
- yn manylu ar sut bydd Cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn gosod nodau lleol;
- yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i oruchwylio ac adrodd ar gynnydd tuag at y nodau; ac
- yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd lleol gydweithio trwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd y fframwaith hwn yn helpu i egluro'r berthynas rhwng Llywodraeth Genedlaethol a Lleol.

**Er enghraifft:** Ym maes gwastraff, mae gosod nodau'n genedlaethol wedi cyflawni gwell canlyniadau. Mae Cynghorau'n gyfrifol am gasglu a delio â gwastraff o gartrefi, ond mae'r targedau'n cael eu gosod yn genedlaethol. Dan ein Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, rydym wedi buddsoddi £676 miliwn ers 2001 mewn helpu Cynghorau i gyrraedd eu targedau ailgylchu, cwtogi ar gostau tirlenwi a chreu swyddi newydd. O ganlyniad, Cymru yw'r gorau yn y DU a'r 4ydd yn Ewrop bellach.

### 2.5 Ardaloedd Cynghorau

Yn ein Papur Gwyn blaenorol, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Diwygio Llywodraeth Leol (Gorffennaf 2014)*, gwnaethom fanylu ar ein bwriad i gwtogi ar nifer y Cynghorau yng Nghymru. Byddwn yn gwneud trefniadau i wneud hyn yn y Bil drafft y bwriedir ei gyhoeddi yn nhymor yr hydref 2015.

## 2.6 Statws Cynghorau Newydd

Mae yna lawer o wahanol enwau ar Gynghorau, er enghraifft; Cynghorau Sir, Bwrdeistref Sirol, Dinas a Sir. Rydym o'r farn y dylai pob Cyngor ddefnyddio'r un teitl: Cynghorau Sir.

## 2.7 Staff

Rydym eisiau i bob Cyngor newydd fod â gweithlu cryf, llawn cymhelliant. Fe fydd angen llawer o gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn. Gwnaethom ymgynghori ynglŷn â sefydlu Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, ar sail anstatudol i ddechrau. Byddwn nawr yn gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol ar ei gyfer yn yr ail Fil:

- recriwtio a chadw staff o fewn Cynghorau ac ar eu traws yn ystod y newidiadau hyn;
- trosglwyddo staff o'r Cynghorau presennol i'r rhai newydd;
- gwneud yn siŵr bod pawb yn deall a bod ganddynt yr un telerau ac amodau gwasanaeth, megis taliadau teithio, oriau hyblyg a phensiynau;
- graddio a gwerthuso swyddi;
- apwyntiadau i uwch swyddi a swyddi eraill; a
- sut mae angen ystyried effeithiau'r newidiadau hyn a materion eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill.

## 2.8 Grymoedd Cyfreithiol Cynghorau

Mae angen i Gynghorau allu cyflawni eu gwaith o fewn y gyfraith. Cymhwysedd cyfreithiol yw ein henw ar hyn. Oni bai bod y gyfraith yn ei ganiatáu, nid yw Cynghorau weithiau'n rhydd i wneud dewisiadau neu ddilyn trywydd syniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau.

Mae Cynghorau wedi dadlau o blaid 'grym cymhwysedd cyffredinol', a fyddai'n eu galluogi i wneud mwy o bethau er budd gorau eu cymunedau. Rydym yn cytuno ac yn bwriadu rhoi'r grym hwn iddynt.

## 2.9 Grymoedd Eraill

Rydym o blaid rhoi mwy o rymoedd i'r Cynghorau newydd hyn, ond yn gyntaf rydym eisiau gwneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r grymoedd sydd ganddynt eisoes yn dda. Byddwn yna'n ystyried a ddylid rhoi mwy o rymoedd iddynt yn y dyfodol.

## 2.10 Cyfansoddiadau Cynghorau

Mae rheolau'n angenrheidiol, ond mae gormod o reolau'n gallu gwneud gwaith yn anodd. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i Gynghorau fanylu ar eu rheolau eu hunain mewn dogfen o'r enw cyfansoddiad. Mae'r cyfansoddiad yn helpu Cynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd i ddeall sut maent yn gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny. Fodd bynnag, mae cyfansoddiadau'n gallu bod yn ddogfennau anferthol sydd, yn ôl pob golwg, yn canolbwyntio ar brosesau cyfreithiol a biwrocrataidd yn unig.

Rydym o'r farn y byddai'n well i Gynghorau gael cyfansoddiad sydd hefyd yn manylu ar rai o'r pethau mwy sylfaenol sydd o bwys i bobl: ei werthoedd craidd, yr egwyddorion y mae'n gweithio'n unol â nhw a'i berthynas â'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu.

## 2.11 Adolygiad o gorff Deddfwriaeth Llywodraeth Leol

Mae Cynghorau'n gweithio dan reolaeth y gyfraith. Mae rhai o'r cyfreithiau hyn yn dyddio o'r 1970au, ac mae yna lawer sydd heb newid rhyw lawer ers oes Fictoria, tra bo eraill wedi cael rhannau wedi'u hychwanegu atynt neu wedi'u newid sawl tro fel eu bod yn anodd i'w deall. Rydym eisiau edrych ar y cyfreithiau y mae'n rhaid i Gynghorau eu dilyn a gweld a ydynt yn dal i fod yn gyfoes ac yn gwbl addas ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Rydym eisiau:

- i Gynghorau ddefnyddio'r un teitl;
- rhoi mwy o ryddid y Gynghorau wneud yr hyn sydd orau i'w cymunedau lleol; ac
- i bob Cyngor fanylu ar ei werthoedd craidd, yr egwyddorion y mae'n gweithio'n unol â nhw a'i berthynas â'r cyhoedd y mae'n ei wasanaethu.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Cydbwyso Cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol, cyfeiriwch at Bennod 2 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 3. Adnewyddu Democratiaeth

Nid yw democratiaeth leol yn cyflawni popeth y gallai ei gyflawni i wella llesiant pobl yng Nghymru. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod yna wahanol rolau mewn Cyngor ac, yn aml, mae yna ddryswch ynglŷn â phwy sy'n gwneud beth. Felly rydym eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau a sut maent yn atebol. Rydym hefyd eisiau i Gynghorwyr adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

### 3.1 Etholiadau Cyngor

Mae etholiadau llywodraeth y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol yn digwydd bob pum mlynedd, ond mae etholiadau i Gynghorau'n digwydd bob pedair blynedd. Yng Nghymru, mae pob un o'r Cynghorwyr yn sefyll i gael eu hethol i gyd ar yr un tro, ond mewn rhai Cynghorau yn Lloegr, mae traean o'r Cynghorwyr yn cael eu hethol ym mhob blwyddyn. 'Etholiadau cyfnodol' yw'r enw ar hyn. Mewn rhai ffyrdd, mae etholiadau cyfnodol yn golygu bod y cyhoedd yn cael dewis yn amlach, ond mewn ffyrdd eraill maent yn golygu bod Cynghorau'n newid cryn dipyn a bod yna ddiffyg cyfeiriad o bosibl.

Rydym eisiau'ch barn chi ar p'un a ddylem gael etholiadau Cyngor bob pum mlynedd yn hytrach na phob pedair blynedd, neu a ddylem ystyried etholiadau cyfnodol.

### 3.2 Rôl a Chyfrifoldebau'r Arweinydd

Os yw rhywrai'n sefyll i ddod yn Arweinydd, mae pobl eisiau gwybod beth y maent yn sefyll drosto.  Rydym o'r farn y dylent gael datganiad ysgrifenedig o nodau a'i gyflwyno i'r Cyngor cyn eu hethol, ac adrodd bob blwyddyn ar sut maent yn cyflawni eu nodau. Dylid dweud wrth y cyhoedd sut maent yn cyflawni eu swydd a bod yn glir os oes yna broblemau.

Yr Arweinwyr yw'r llefarwyr gwleidyddol ar ran y Cynghorau ac maent yn dewis Cabinet o Aelodau Etholedig i'w helpu i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud. Gyda'i gilydd, y Weithrediaeth yw'r enw ar y rhain. Nid yw'r Prif Weithredwyr yn Aelodau Etholedig (nac yn aelodau o'r Weithrediaeth!). Y Cyngor sy'n eu penodi nhw, ac maent yn gyfrifol am reoli'r Awdurdod a'r staff.

Mae ar Arweinwyr angen i'w Haelodau Cabinet a'r Prif Weithredwr gyflawni eu cynlluniau, felly mae angen iddynt wybod sut hwyl y maent yn ei chael ar bethau. I wneud hyn yn glir i bobl, rydym eisiau i Arweinydd pob Cyngor osod nodau ar gyfer Aelodau'r Cabinet a'r Prif Weithredwr, a gwirio sut hwyl y maent yn ei chael ar bethau bob blwyddyn.

Rydym o'r farn mai Cabinetau sy'n adlewyrchu'r boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu yw'r Cabinetau gorau. Felly rydym yn bwriadu rhoi dyletswydd ar Arweinwyr i wneud yn siŵr bod cynifer â phosibl o wahanol bobl o lawer o wahanol gefndiroedd yn cael eu dewis ar gyfer y Cabinet fel bod llawer o wahanol safbwyntiau'n cael eu cynrychioli.

### 3.3 Rôl a Chyfrifoldebau Aelodau Cabinet

Mae'r Cabinet yno i benderfynu beth yw'r blaenoriaethau a sut gellir eu cyflawni. Maent yn gyfrifol am wneud penderfyniadau. Mae rhai Cabinetau'n gwneud penderfyniadau mewn modd agored ac yn gallu dangos tystiolaeth i gefnogi eu penderfyniadau, ond mae eraill yn llai agored. Mae hyn wedi arwain at gryn feirniadaeth, yn enwedig o ystyried bod y nifer mawr o Aelodau Cabinet ledled Cymru'n costio llawer o arian.

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gall Cabinet gynnwys hyd at ddeg aelod.  Yng Nghymru, mae Cabinetau Cyngor yn amrywio o saith i ddeg aelod. Mae pob Aelod Cabinet yn amser llawn ac ar gyflog uwch. Mae gan rai ohonynt gyfrifoldebau cyfreithiol pwysig, er enghraifft yr Aelodau Cabinet ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw cyfrifoldebau pob Aelod Cabinet ar yr un lefel neu a oes angen iddynt fod yn amser llawn. Efallai y byddai'n syniad da cael swyddi Dirprwy Gabinet rhan-amser a fyddai'n agor y drws i amrywiaeth ehangach o Gynghorwyr sydd o bosibl â swyddi eraill neu sy'n rhieni.  Rydym yn ceisio barn ar p'un a ddylem gwtogi ar nifer yr Aelodau Cabinet.

### 3.4  Rôl a Chyfrifoldebau Cynghorwyr

Mae angen i ni ei gwneud yn glir beth yw'r disgwyliadau ar gyfer Cynghorwyr. Mae angen iddynt arwain eu cymunedau a gwneud yn siŵr bod pobl yn cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau. Mae angen iddynt gyfathrebu â'r bobl y maent yn eu gwasanaethu, ac mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod yna gyfleoedd iddynt chwarae rhan yn y pethau sy'n digwydd. Fe ddylent ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg ddigidol i sicrhau eu bod o fewn cyrraedd haws.

Mae gan Gynghorwyr rôl bwysig i'w chwarae o ran mynnu bod yr Arweinydd a'r Cabinet yn atebol.  Maent yn hanfodol i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn cael ei redeg yn dda. Mae hon yn dasg anodd ac mae angen iddynt gael yr hyfforddiant iawn, yn enwedig wrth i'w cyfrifoldebau gynyddu mewn Cynghorau mwy.

Mae'n rhaid i Gynghorau gefnogi Cynghorwyr i gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y pethau y maent wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, mae llai na hanner yn gwneud hyn, a dyna pam ein bod eisiau newid y gyfraith i wneud yn siŵr eu bod yn cyhoeddi adroddiad. Mae Cynghorwyr yn cael eu talu drwy arian trethdalwyr ac fe ddylent ddweud wrthym beth y maent wedi'i gyflawni.

### 3.5  Amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr

Rydym eisiau i gymunedau uniaethu â'u Cynghorwyr a theimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Oherwydd anghydraddoldebau o ran rhyw, oedran a grwpiau ethnig y bobl sy'n sefyll i'w hethol, nid yw cymunedau bob amser yn ffyddiog bod eu cynrychiolwyr yn eu deall neu'n diwallu eu hanghenion.

Mewn meysydd bywyd cyhoeddus eraill, megis mudiadau gwirfoddol, mae yna lawer yn fwy o bobl o wahanol grefyddau, diwylliannau, cefndiroedd a rhywiau'n gweithio i ddiwallu anghenion pobl. Fodd bynnag, o'r bobl sy'n gweithio yn y meysydd hyn prin iawn yw'r rhai sy'n mynd ymlaen i ddod yn Gynghorwyr. Mae hyn er colled i ddemocratiaeth. Os ydym eisiau annog pobl i sefyll i'w hethol, mae'n rhaid i ni ddangos bod Cynghorau'n agored, yn groesawgar ac yn parchu gwahaniaethau. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod yna bolisïau ar waith i atal bwlio ac aflonyddu, ac i hybu parch yn ogystal â gwneud yn siŵr bod arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau i osod esiampl i bob Cynghorydd a staff Cyngor.

Mae gan lawer o Gynghorau ar draws Cymru Gynghorau Ieuenctid. Rydym o'r farn bod y rhain yn hanfodol i annog pobl ifanc i chwarae rhan mewn gwleidyddiaeth nawr ac yn y dyfodol, ac fe fyddwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob ardal fod â Chyngor Ieuenctid.

## 3.6 Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr

Mae'n bwysig i ddemocratiaeth ein bod yn annog grŵp mwy amrywiol o bobl i sefyll i'w hethol ac nad yw bod yn Gynghorydd yn golygu eu bod ar eu colled yn ariannol. Ar hyn o bryd, mae Cynghorwyr yn derbyn lwfans o £13,000 y flwyddyn, ond mae Arweinwyr, Aelodau Cabinet a rhai eraill yn cael swm sy'n sylweddol fwy, rhwng £26,000 a £53,000.

Mae'r lwfans hwn yn effeithio'n wahanol ar bobl. Er enghraifft, i rywun sydd wedi ymddeol, mae'n incwm ychwanegol, ond i riant sengl sydd â swydd ran-amser fe allai hyn fynd â nhw i fraced treth uwch ac felly eu hannog i beidio â gwasanaethu.

Rydym wedi comisiynu adolygiad o'r ffordd orau i dalu Cynghorwyr ac o rôl corff o'r enw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## 3.7 Nifer y Cynghorwyr

Ar hyn o bryd, mae yna 1,254 o Gynghorwyr yng Nghymru. Fe fydd angen i ni benderfynu sawl Cynghorydd y dylem eu cael pan fydd yna lai o Gynghorau, mwy eu maint yng Nghymru. Rydym yn ceisio barn ar p'un a ddylid cwtogi ar y nifer, a pha ffactorau y dylem eu hystyried wrth benderfynu ar y nifer iawn.

## 3.8 Cyfyngu ar Nifer y Tymhorau y caiff Cynghorwyr Wasanaethu

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfyngiad ar ba mor hir y mae rhywun yn gallu bod yn Gynghorydd. Gwnaeth un arolwg ddarganfod bod hanner yr holl Gynghorwyr yng Nghymru wedi gwasanaethu am o leiaf ddeng mlynedd, a bod rhai wedi gwasanaethu am fwy na 50 mlynedd. Efallai y byddai'n well i gymunedau pe bai yna gyfyngiad ar nifer y blynyddoedd neu'r tymhorau y caiff Cynghorwyr wasanaethu. Fe fyddai hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl sefyll ac i fwy o bobl gymryd rhan mewn rhedeg eu hardal leol. Rydym yn awgrymu cyfyngiad o bum tymor i Gynghorwyr, a dau dymor i Arweinwyr, Meiri Etholedig ac Aelodau Cabinet.

## 3.9 Adalw Cynghorwyr

Mae'r Bil Adalw Aelodau Seneddol yn gyfraith newydd y mae Senedd y DU yn ei phasio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Aelodau Seneddol ymddiswyddo o'u sedd os bydd 10% o'r bobl yn eu hardal yn llofnodi deiseb yn galw am hynny. Ni fyddai modd adalw Aelod Seneddol oni bai ei fod:

- wedi torri'r gyfraith neu wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd;
- wedi'i garcharu; neu
- wedi'i wahardd o Dŵr Cyffredin am o leiaf 10 diwrnod.

Rydym yn ceisio'ch barn ar p'un a ddylem gael rheolau tebyg ar gyfer Cynghorwyr. Er enghraifft, gellid adalw Cynghorydd os yw Pwyllgor Safonau'r Cyngor neu Banel Dyfarnu Cymru wedi'i gosbi am dorri'r cod ymddygiad.

## 3.10 Cymhwysedd Etholiadol

Mae'r mwyafrif o bobl yn gallu gwasanaethu fel Cynghorydd, ond mae yna rai grwpiau bach nad ydynt yn gallu. Ni all pobl sy'n gweithio mewn Cyngor sefyll i'w hethol i'r Cyngor y maent yn gweithio iddo oni bai eu bod yn ymddiswyddo'n gyntaf. Rydym o'r farn bod hyn yn atal nifer

mawr o ymgeiswyr posibl o gefndiroedd amrywiol rhag cynnig eu hunain. Rydym eisiau newid y gyfraith fel na fyddai'n rhaid iddynt ymddiswyddo oni bai y byddent yn cael eu hethol.

Rydym hefyd eisiau edrych ar p'un a ddylid atal Cynghorwyr mewn Llywodraeth Leol rhag gwasanaethu naill ai fel Aelodau Cynulliad neu fel Cynghorwyr Cymuned ar yr un pryd, oherwydd y galw ar eu hamser a gwrthdaro buddiannau posibl.

### 3.11 Rôl a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

Defnyddir y term "Prif Weithredwr" (o bryd i'w gilydd "Rheolwr Gyfarwyddwr") ar draws Llywodraeth Leol yng Nghymru ar gyfer y prif swyddog neu'r pennaeth.

Caiff Prif Weithredwyr eu penodi, yn hytrach na'u hethol. Prif rôl y Prif Weithredwr yw gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn cyflawni amcanion gwleidyddol yr Arweinydd ac yn diwallu anghenion y bobl yn eu hardaloedd. Mae angen iddynt hefyd wneud yn siŵr bod popeth y mae'r Cyngor yn ei wneud yn unol â'r gyfraith ac yn werth am arian. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gael Prif Weithredwr, ac rydym o'r farn y dylid bod â gofyniad o'r fath.

Mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i bob Cyngor fod â pherson dynodedig i fod yn Bennaeth eu Gwasanaeth Cyflogedig. Dylai'r person hwn gael y staff a'r adnoddau eraill sydd eu hangen arno i gyflawni'r rôl honno. Yn y mwyafrif o Gynghorau, y Prif Weithredwr yw Pennaeth eu Gwasanaeth Cyflogedig hefyd, ac rydym o'r farn y dylid cyfuno'r ddwy rôl hyn.

Mae'n rhaid i'r Prif Weithredwyr fod â set eglur o ddyletswyddau y gellir mesur perfformiad yn eu hôl a dylid sicrhau, os ydynt yn methu, bod modd i'r Cyngor eu diswyddo. Rydym o'r farn y dylai'r dyletswyddau hyn fod fel a ganlyn:

- paratoi a chyhoeddi cynllun corfforaethol;
- paratoi a chyhoeddi hunanasesiadau o berfformiad y Cyngor bob blwyddyn;
- sefydlu adolygiad gan gymheiriaid o berfformiad y Cyngor bob dwy flynedd, a pharatoi adroddiad ar gyfer y Cyngor ynglŷn â'r camau i'w cymryd;
- rhoi system rheoli perfformiad ar waith ar gyfer pob gweithiwr; a
- hybu gwaith ymgysylltu ac amrywiaeth mewn democratiaeth.

### 3.12 Cyfyngu ar Hyd Tymor Prif Weithredwyr

Pan mae rhywun wedi bod yn Brif Weithredwr am amser hir iawn, mae yna berygl y daw grym a dylanwad y person hwnnw'n llethol. Rydym yn ceisio barn ar p'un a ddylid cyfyngu ar yr amser y mae Prif Weithredwr yn gallu aros yn ei swydd ac, os felly, am ba mor hir.

### 3.13 Cost Uwch Dimau Rheoli

Y Cynghorau sy'n gosod cyflogau Prif Weithredwyr a llawer o rolau uwch reolwyr. Mae Prif Weithredwyr yng Nghymru'n ennill rhwng £105,851 a £194,661. Mae maint uwch dimau rheoli yng Nghymru'n amrywio'n fawr, o 3 mewn rhai Cynghorau i 17 mewn eraill. Mae uwch reolwyr yn ennill rhwng £60,000 a £150,000. Nid oes unrhyw gysylltiad, i bob golwg, rhwng yr amrywiad yn nifer yr uwch swyddi rheoli a'u cyflogau â maint neu gymhlethdod y Cyngor. Mae hyn yn llawer iawn o arian cyhoeddus, sef bron i £26 miliwn y flwyddyn i gyd. Rydym yn ceisio barn ar p'un a ddylid bod yn fwy cyson o ran nifer yr uwch swyddi a'u cyflogau.

### 3.14 Penodi Uwch Swyddogion i'r Awdurdodau Newydd

Mewn rhai gwledydd, megis Seland Newydd a Gweriniaeth Iwerddon, mae yna gorff annibynnol sy'n rheoli penodi Prif Weithredwyr ac uwch rolau cyhoeddus eraill. Mae hyn yn helpu i wneud pethau'n fwy cyson ac i adeiladu corff o arweinwyr cyhoeddus sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant iawn i wneud y swydd yn dda.

Rydym yn ceisio barn ar p'un a ddylem fabwysiadu'r dull hwn o weithredu yng Nghymru.

**Rydym eisiau:**

- edrych ar rolau a chyfrifoldebau pobl ar bob lefel o Lywodraeth Leol, gan gynnwys yr Arweinwyr, Aelodau Cabinet, Cynghorwyr a Phrif Weithredwyr;
- cwtogi ar gost gwleidyddiaeth yng Nghymru;
- i grŵp ehangach o bobl o wahanol oedrannau a chefndiroedd chwarae rhan a sefyll i ddod yn Gynghorydd os ydynt am wneud hynny; ac
- edrych ar ba mor aml ac am ba mor hir y mae rhywun yn gallu bod mewn uwch swydd mewn Cyngor.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Adnewyddu Democratiaeth, cyfeiriwch at Bennod 3 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 4. Cysylltu â Chymunedau

Mae Cymru bob amser wedi bod â chymunedau cryf, lle mae pobl yn chwarae rhan ac yn gwneud i bethau ddigwydd. Weithiau, maent yn ei chael hi'n anodd chwarae rhan gan nad ydynt yn cael gwybod am benderfyniadau tan y funud olaf. Mae hyn yn golygu nad yw pobl, yn aml, yn chwarae rhan oni bai bod yna fygythiad y bydd gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol, megis llyfrgell neu ganolfan hamdden, yn cael ei gau. O'r herwydd, mae cymunedau'n colli cyfleoedd i ddod yn gyfrifol am bethau eu hunain.

Caiff Cynghorwyr eu dewis i gynrychioli eu hardal trwy etholiadau Cyngor, ac yna maent yn gwneud penderfyniadau ar ein rhan. 'Democratiaeth gynrychiadol' yw'r enw ar hyn. Ond rydym yn disgwyl mwy y dyddiau hyn. Rydym yn talu am wasanaethau lleol trwy ein trethi ac rydym yn disgwyl cael dweud ein dweud yn amlach na phob pedair blynedd pan gynhelir etholiadau Cyngor. Rydym yn disgwyl gallu chwarae rhan ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnom ni. 'Democratiaeth gyfranogol' yw'r enw ar hyn.

Nid yw Cynghorau wedi bod yn dda iawn bob amser am helpu pobl i chwarae rhan. Mae'n rhaid i hyn newid. Yn eu rôl arweinyddiaeth gymunedol, mae angen i Gynghorau a Chynghorwyr sicrhau mai pobl a'u barn yw canolbwynt popeth y maent yn ei wneud.

### 4.1 Llywodraethu Cymunedol yng Nghymru

Llywodraethu cymunedol yw'r ffordd y mae pobl mewn ardaloedd neu gymdogaethau lleol yn trefnu eu hunain ac yn rheoli eu gwasanaethau a'r asedau sydd ganddynt. Mae yna ffyrdd gwahanol o wneud hyn:

- Pwyllgorau ardal y Cynghorau;
- Cynghorau Cymuned;
- Partneriaethau rhwng gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol;
- Ymddiriedolaethau cymunedol a mentrau cymdeithasol;
- Partneriaethau rhaglenni, megis Cymunedau yn Gyntaf.

Mae yna lawer o'r grwpiau hyn sydd eisoes yn gweithio mewn cymunedau ac weithiau mae'n gallu bod yn anodd iddynt ddweud eu dweud a dylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor. Rydym o'r farn y dylai Cynghorwyr gael rôl gref yn arwain eu cymunedau, ac rydym yn cynnig y dylid cael system newydd i helpu yn hyn o beth.

### 4.2 Llywodraethu Cymunedol a arweinir gan Aelodau

Gyda llai o Gynghorau, mwy eu maint, mae'n hanfodol bod cymunedau'n chwarae rhan fwy nag y maent yn ei chwarae ar hyn o bryd. Rydym o'r farn y dylid rhannu'r Cynghorau newydd yn ardaloedd llai pan maent yn gweithio gyda chymunedau, ac y dylid sefydlu partneriaeth gymunedol o'r enw Bwrdd Ardal. Dylai'r Cyngor benderfynu ar faint a siâp yr ardaloedd llai hyn ar ôl siarad â'r bobl leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Dylai'r Cynghorwyr ar gyfer yr ardaloedd hynny gydweithio i arwain y Byrddau Ardal, ond mae'n rhaid iddynt gynnwys elusennau, cyrff cymunedol, mentrau cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cynghorau Cymuned. Rhaid cynnal cyfarfodydd y Byrddau Ardal hyn yn gyhoeddus, a dylai pawb sy'n byw yn yr ardal gael yr hawl i siarad, fel bod y Bwrdd yn gallu rhoi sylw i'w barn a'u pryderon.

Diben y Byrddau hyn yw siapio'r gymuned leol trwy newid y ffordd o ddarparu gwasanaethau yno. Bydd y Bwrdd yn gallu galw ar swyddogion y Cyngor i esbonio'u hunain os nad yw gwasanaethau'n cyrraedd y safonau gofynnol. Dylent hefyd helpu grwpiau cymunedol pan maent eisiau dod yn gyfrifol am gyfleusterau lleol, megis canolfannau cymunedol neu feysydd chwarae. Mae yna gyfle hefyd i Fyrddau Ardal ddod yn gyfrifol am syniadau a mentrau newydd yn eu hardal, gan gynnwys y rheiny y mae rhaglenni Llywodraethau'r DU a Chymru yn eu hariannu.

Bydd yn rhaid i Gynghorau ddeall bod y Byrddau Ardal hyn yn hynod bwysig a'u cefnogi â'r holl adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd.

### 4.3 Cynghorau Cymuned

Mae yna 735 o Gynghorau Cymuned yng Nghymru. Mae Cynghorau Cymuned yn gweithio ar lefel tref neu bentref ac mae rhai yn gwasanaethu ardal fach iawn. Rydym o'r farn bod hyn yn ormod ac, yn wir, nid oes gan y rhai llai yr adnoddau i wneud rhyw lawer. Un cryfder Cynghorau Cymuned yw eu bod yn agosach at bobl leol, ond nid ydynt bob amser yn agored ac nid ydynt bob amser yn cynnwys y cyhoedd y maent yn ei wasanaethu. Mewn egwyddor, maent yn gyrff democrataidd ac, fel y cyfryw, gallant godi trethi lleol, ond mewn gwirionedd nid oes unrhyw gystadleuaeth am y mwyafrif helaeth o seddi mewn etholiadau Cynghorau Cymuned.

### 4.4 Adolygiad Awdurdodau Lleol o Gynghorau Cymuned

Mae yna lawer o waith da y mae Cynghorau Cymuned yn ei wneud. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod yna achos eglur dros wneud newidiadau. Rydym eisiau i Gynghorau Cymuned fod yn fwy uchelgeisiol a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol eraill. Rydym eisiau iddynt fod yn agored ynglŷn â'u penderfyniadau, a chynnwys y bobl yn eu hardal. Mae arnom angen iddynt ystyried eu hunain yn rhan o wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a mynd ati i chwarae rhan mewn gwaith sy'n cefnogi teuluoedd, plant a phobl ifanc a grwpiau eraill sy'n agored i niwed, megis hen bobl.

Ni allant wneud hyn oni bai bod yna lai o Gynghorau Cymuned, mwy eu maint. Dylai rhai o'r Cynghorau Cymuned llai ystyried ymuno â'i gilydd i lunio Cynghorau Cymuned mwy sy'n gofalu am ardaloedd ehangach. Er mwyn cyflawni hyn, rydym eisiau rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol adolygu'r Cynghorau Cymuned yn eu hardal, â'r bwriad o gwtogi ar y nifer yn gyffredinol, ac rydym eisiau iddynt gwblhau'r gwaith hwn erbyn 2022.

### 4.5 Llywodraethu a Safonau

Yn ogystal â newidiadau i ardaloedd Cynghorau Cymuned, mae angen i'r cyhoedd wybod bod yna safonau ar gyfer modd Cynghorau Cymuned o reoli eu busnes a'u modd o wario arian

cyhoeddus a rhoi cyfrif amdano. Rydym eisiau cael set o brofion y mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned eu pasio cyn gellir ystyried eu bod yn alluog ac yn gymwys.

Bydd y Cynghorau a fydd yn pasio'r profion hyn yn cael hawliau a chyfrifoldebau ychwanegol. Fe fydd ganddynt rymoedd ehangach i wneud pethau er budd eu cymuned. Dylai'r rheiny sy'n methu'r profion ymuno â Chyngor Cymuned arall llai er mwyn pasio'r profion, fel bod yna lai o Gynghorau Cymuned, mwy eu maint.

### 4.6 Cynghorwyr Cymuned yn Gwasanaethu ar fwy nag un Cyngor

Mae bron i hanner y Cynghorwyr ar y prif Gynghorau hefyd yn Gynghorwyr Cymuned.
Fe allai hyn achosi gwrthdaro buddiannau wrth i brif Gynghorau fynd ati i adolygu Cynghorau Cymuned. Hefyd, mae rhai pobl yn gwasanaethu ar fwy nag un Cyngor Cymuned, yn ogystal â bod yn Gynghorydd y Prif Gyngor.

Rydym eisiau'ch barn chi ar p'un a ddylem atal yr un person rhag gwasanaethu ar Brif Gyngor a Chyngor Cymuned, ac ar fwy nag un Cyngor Cymuned.

**Rydym eisiau**:

- i Gynghorwyr fynd ati i chwarae rhan yn eu cymunedau ac ar Fyrddau Ardal;
- i Gynghorwyr fod â drws agored, a gwrando ar anghenion pobl;
- i Gynghorau gydweithio â gwasanaethau eraill, mudiadau gwirfoddol a chymunedau; ac
- i Gynghorau edrych ar y Cynghorau Cymuned yn eu hardal ac ystyried newidiadau.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Cysylltu â Chymunedau, cyfeiriwch at Bennod 4 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 5. Grym i Gymunedau Lleol

Mae gan Gymru hanes balch o gydweithfeydd a mentrau cymunedol neu gymdeithasol, pobl sy'n rhedeg busnes heb ddefnyddio'r elw'n er budd personol ond er budd y gymuned. Mae yna lawer o enghreifftiau ledled Cymru o ymddiriedolaethau cymunedol bach sy'n rhedeg neuaddau pentref, canolfannau hamdden a chyfleusterau chwaraeon. Mae yna hefyd lawer o enghreifftiau mawr, megis cydweithfeydd ffermwyr a chymdeithasau tai, yn ogystal â chwmnïau mawr fel Dŵr Cymru a Chymdeithas Adeiladu'r Principality. Yn wir, cymdeithasau tai sydd bellach yn rhedeg y tai cymdeithasol yn hanner holl ardaloedd Cynghorau yng Nghymru, ac mae'r tenantiaid yn chwarae rhan fawr yn eu rhedeg.

Rydym eisiau gweld mwy o'r math hwn o fenter gymdeithasol fel bod cymunedau'n gallu cael mwy o hawliau i benderfynu ar sut mae pethau'n gweithio, ac fel bod pobl yn gallu chwarae rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

### 5.1 Cyfranogiad Cymunedol

Weithiau mae pobl yn teimlo'n anfodlon oherwydd nad yw'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn ddigon da, ac maent yn gwybod y gellid ei wella, yn aml gyda newidiadau bach yn unig. Rydym o'r farn y dylai grŵp cymunedol sy'n teimlo y gellid gwella gwasanaeth gael hawl i fynd at y Cyngor, manylu ar eu holl syniadau a chynlluniau, a chael rhan i'w chwarae mewn gwella'r gwasanaeth. Mewn rhai achosion, fe allai hyn olygu grŵp cymunedol yn dod yn gyfrifol am y gwasanaeth ac yn ei redeg eu hunain.

Rydym o'r farn y gallai hyn fod yn ffordd rymus i grwpiau cymunedol sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud. Bydd angen i staff Cyngor ddatblygu sgiliau i weithio mewn ffyrdd newydd, ac fe allai hyn alw am newid mewn arweinyddiaeth.

### 5.2 Trosglwyddo Eiddo'r Cyngor i'r Gymuned

Mae Cynghorau'n berchen ar lawer o adeiladau, tir ac eiddo, megis swyddfeydd, neuaddau, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a meysydd chwarae. 'Asedau' yw'r enw ar y rhain. Yn yr amseroedd ariannol anodd hyn, efallai na all Cynghorau fforddio i'w cadw mwyach, a'u bod eisiau eu gwerthu neu gael rhywun arall i'w rhedeg. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gofyn i'r gymuned am eu barn ac yn gofyn a fyddent eisiau cymryd cyfrifoldeb amdano eu hunain.

Rydym o'r farn y dylai grwpiau cymunedol gael yr hawl i fynd at y Cyngor a chynnig eu bod yn dod yn gyfrifol am ased er budd y gymuned. Fe allai hyn olygu gwerthu'r ased i'r grŵp cymunedol (am ei werth ar y farchnad neu'n rhatach) neu efallai y byddai'r grŵp cymunedol eisiau ei redeg a'i reoli am gyfnod o flynyddoedd. Byddem yn disgwyl i'r Byrddau Ardal newydd helpu grwpiau cymunedol lle bo'r gymuned o blaid dod yn gyfrifol am eiddo'r Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu pecyn cymorth sy'n manylu ar sut i drosglwyddo asedau'n llwyddiannus.

Yn ogystal â gallu dangos cefnogaeth i'w cynlluniau, fe fyddai angen i grwpiau cymunedol fod â strwythur cyfreithiol gyda'r sgiliau a'r rheolaethau ariannol iawn ar waith. Fe fyddai angen cael trefniadau diogelu i sicrhau bod yr ased yn aros yn y gymuned ac na fyddai'n cael ei werthu am elw.

**Er enghraifft:** Fe drosglwyddodd Cyngor Torfaen dair canolfan chwaraeon a hamdden i ymddiriedolaeth gymunedol eu rhedeg ac mae hyn yn golygu bod y gymuned yn gallu parhau i'w defnyddio. Mae Cynghorau eraill yn gadael i ymddiriedolaethau cymunedol redeg llyfrgelloedd, fel nad oes yn rhaid iddynt gau.

## 5.3 Perchnogaeth Gymunedol

Efallai y bydd cymunedau hefyd eisiau mwy o gyfle i ddweud eu dweud ynglŷn ag eiddo sydd dan berchnogaeth breifat, megis tafarn neu siop neu feysydd chwarae'r pentref, neu eiddo y mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn berchen arno. Mae'r math hwn o eiddo o werth arbennig i'r gymuned a gall yn aml chwarae rhan fawr mewn gwneud yn siŵr bod cymunedau'n ffynnu, trwy ddarparu swyddi a gwasanaethau i bobl leol. Mewn rhai ardaloedd, maent yn gallu bod yn bwysig i ddiogelu'r Gymraeg.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai grwpiau cymunedol gael hawl i wneud y cynnig cyntaf pan ddaw eiddo sydd o werth i'r gymuned ar werth. Fel rheol, fe fyddai'n rhaid iddynt brynu'r eiddo am ei werth ar y farchnad, ond fe fyddent yn cael cyfnod o amser i godi'r arian ynddo. Gellid cael gweithdrefn garlam ar gyfer eiddo sydd wedi'i esgeuluso neu ei adael yn wag. Fe fyddai angen cael rhai trefniadau penodol i warchod buddiannau perchnogion eiddo preifat.

Rydym yn ceisio'ch barn gychwynnol ar y cynnig hwn, â'r bwriad o ymgynghori ymhellach maes o law.

**Rydym eisiau:**

- i grwpiau cymunedol gael hawliau a grymoedd y maent yn gallu eu defnyddio; ac
- i grwpiau cymunedol fynd ati i chwarae rhan mewn newid.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Grym i Gymunedau Lleol, cyfeiriwch at Bennod 5 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 6. Llywodraethu Corfforaethol a Gwella

Mae'r cyhoedd a'r bobl sy'n gweithio i Gynghorau'n disgwyl iddynt gael eu rhedeg yn dda. Fodd bynnag, mae Cynghorau'n wynebu pwysau anferthol. Mae'r boblogaeth yn heneiddio ac mae hyn yn rhoi gwasanaethau Cyngor dan bwysau. Mae ein disgwyliadau o ran ansawdd gwasanaethau'n codi. Ar yr un pryd, mae swm yr arian sydd gan Gynghorau i'w wario wedi bod yn lleihau bob blwyddyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn cael llai o arian oddi wrth Lywodraeth y DU. Mae hyn yn debygol o barhau am gryn amser, felly mae'n rhaid gwneud rhywbeth.

Mae yna adegau pan nad yw Cynghorau yng Nghymru wedi diwallu anghenion y bobl yn eu hardal, ac mae Gweinidogion Cymru wedi gorfod camu i mewn i gywiro pethau. Weithiau, mae hyn yn digwydd oherwydd ei bod yn aneglur pwy sydd â'r gwir gyfrifoldeb a thasg pwy ydyw i gywiro pethau.

Ar adegau fel hyn, mae angen i arweinwyr fod â ffocws a gweledigaeth, ac mae angen i reolwyr fod â'r rheolaethau iawn ar waith fel eu bod yn gwybod beth sy'n digwydd.

### 6.1 Llywodraethu Corfforaethol

Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â pha mor dda y mae sefydliad yn rhedeg ei fusnes, gan gynnwys sut mae'n rheoli risgiau, sut mae'n cynllunio'i gyllid a'i adnoddau a sut mae ganddo'r dulliau gwirio a gwrthbwyso iawn ar waith fel bod modd mynnu bod pobl yn atebol.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw gwneud yn siŵr bod hyn oll ar waith, ond rhaid i Gynghorau hefyd, dan y gyfraith, fod â Phwyllgor Archwilio i helpu'r Prif Weithredwr trwy wirio bod y Cyngor cystal ag y gall fod a gwneud gwelliannau lle bo'u hangen. Mae yna rôl hefyd i'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r gyfraith.

Rydym eisiau i Gynghorau gymryd mwy o gyfrifoldeb am wneud gwelliannau fel nad oes yn rhaid i Weinidogion Cymru gamu i mewn mor aml i gywiro pethau. Mae hyn yn golygu bod angen i brosesau llywodraethu corfforaethol weithio'n well..

### 6.2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Mae'r gyfraith hon yn golygu bod yn rhaid i Gynghorau wneud cynlluniau i wella. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n eu gwirio pob blwyddyn i weld a ydynt wedi gwella, ac a oes modd iddynt wella mwy fyth. Rydym o'r farn nad yw'r gyfraith hon yn gweithio fel y dylai a'n bod weithiau'n mesur y pethau anghywir ac yn methu'r pethau sydd o wir bwys. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu diddymu'r gyfraith hon, er ei bod yn bosibl y cedwir rhai rhannau ohoni mewn deddfwriaeth newydd.

### 6.3 Rheoli Gwella trwy Hunanasesiadau ac Adolygiadau gan Gymheiriaid

Er mwyn gallu gwneud yn siŵr bod gwelliannau'n digwydd, a bod y dulliau gwirio a chydbwyso iawn ar waith, rydym yn bwriadu gwneud Pwyllgorau Archwilio'n gryfach. Dan ein cynigion, fe fydd gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio fwy o rymoedd a bydd yn cynnwys mwy o aelodau annibynnol. Ni fydd gan yr aelodau annibynnol hyn agendâu gwleidyddol a allai ddylanwadu ar eu penderfyniadau.

Rydym hefyd eisiau ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weithredwr gynnal hunanasesiad bob blwyddyn o ba mor dda y mae'r Cyngor yn gweithredu, ac adrodd i'r Arweinydd a'r Cabinet ar unrhyw fater sy'n achosi pryder ac ar y camau a gymerir i gywiro pethau.

I wneud yn siŵr bod yr asesiadau'n deg ac yn rhesymol, rydym eisiau i grŵp o arbenigwyr adolygu'r Cyngor bob yn ail blwyddyn. 'Adolygiad gan gymheiriaid' yw'r enw ar hyn. Ystyr adolygiad gan gymheiriaid yw sefyllfa pan mae grŵp o weithwyr proffesiynol cymwysedig a phobl sy'n deall sut mae Cynghorau'n gweithio'n edrych ar beth y mae staff yn ei wneud ac ar y systemau y maent yn eu defnyddio fel eu bod yn gallu dwyn sylw at feysydd i'w gwella. Maent hefyd yn cymharu eu darganfyddiadau ag asesiad y Prif Weithredwr i weld pa mor dda y maent yn cyfateb i'w gilydd.

Gyda'i gilydd, rydym o'r farn y dylai Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio cryfach a system hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Arweinydd allu darparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl leol o fewn y gyllideb sydd ar gael.

### 6.4 Grymoedd i Ymyrryd

Weithiau, fodd bynnag, fe fydd pethau'n dal i fynd o chwith. Pan fydd hyn yn digwydd mewn meysydd fel gwasanaethau cymdeithasol neu addysg, mae'n eithaf posibl y daw aelodau'r cyhoedd dan anfantais neu hyd yn oed gael eu niweidio. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod â'r grymoedd i ymyrryd yn gyflym.

Rydym o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru gael y grym i gomisiynu adolygiad annibynnol o Awdurdod Lleol:

- os yw chwythwr chwiban yn dweud bod yna broblemau;
- os yw eu perfformiad yn waeth nag y mae angen iddo fod;
- os ydynt yn waeth na Chynghorau eraill mewn meysydd allweddol;
- os yw'r Cyngor ei hun neu ei Aelodau wedi codi pryderon;
- os yw gwybodaeth oddi wrth archwilwyr neu yn sgil arolygiadau'n dangos problemau; neu
- os oes gan y cyhoedd bryderon ynglŷn â materion

Byddai Gweinidogion Cymru yna'n defnyddio'r darganfyddiadau hyn i benderfynu a oes angen cymorth neu ymyrraeth ffurfiol.

Rydym eisiau:

- cryfhau rôl Pwyllgorau Archwilio Cynghorau;
- cyflwyno system lle mae arweinwyr Cyngor yn gorfod gwneud hunanasesiadau ac yn cael eu herio ynglŷn â'r systemau y maent yn eu rhoi ar waith;
- rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru ofyn am adolygiadau annibynnol; a
- rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru gamu i mewn os ydynt o'r farn nad yw Cynghorau'n gwella neu'n gweithio.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Grym i Gymunedau Lleol, cyfeiriwch at Bennod 6 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 7. Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol

Dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn rhagorol, lle bynnag y mae pobl yn byw yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r polisi a'r fframwaith cyfreithiol y mae'n rhaid i bob Cyngor weithio'n unol â nhw, ond y Cynghorau sy'n rheoli ac yn darparu gwasanaethau. Mae gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n rhagorol yn golygu bod â'r systemau iawn ar waith fel bod rheolwyr yn gwybod beth sydd angen ei wneud, faint sydd angen ei wneud, a pha safonau ansawdd sydd angen eu cwrdd.

Mae pob cymuned yn wahanol. Rôl y Cyngor yw gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n iawn i'w cymunedau.

### 7.1 Cynllunio sut i Sicrhau bod Pethau'n Cael eu Gwneud

Mae darparu gwasanaethau rhagorol yn golygu bod â nodau eglur, yr wybodaeth iawn a chynllun manwl. 'Cynllun corfforaethol' yw'r enw ar hyn.

Mae cyfraith newydd, sef Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r gyfraith hon yn pennu nodau tymor hir ar gyfer Cymru, a bydd gofyn i bob Cyngor fod â'i nodau ei hun sy'n dangos beth yw'r blaenoriaethau lleol. Yr Arweinydd fydd yn dewis y rhain, bydd y Cyngor llawn yn cytuno arnynt, a manylir arnynt yn y 'cynllun llesiant lleol'.

Rydym o'r farn mai cyfrifoldeb y Prif Weithredwr yna yw cynhyrchu cynllun i ddangos sut caiff y nodau hyn eu cyflawni. Cynllun corfforaethol yw'r enw ar hyn. Bydd y cynllun corfforaethol yn manylu ar sut bydd y Cyngor yn cyflawni ei nodau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Bydd yn manylu ar sut bydd y Prif Weithredwr yn defnyddio staff ac adnoddau'r Cyngor, sut caiff risgiau eu rheoli, sut mae gwasanaethau'n perfformio nawr a beth sydd angen gwella, a sut gall y cyhoedd ddweud eu dweud ar y pethau sy'n effeithio arnyn nhw.

### 7.2 Gwybodaeth i Gymharu Gwasanaethau

Ni fydd cynllunio corfforaethol yn gweithio'n dda oni bai bod gan y Cyngor wybodaeth dda, gyfoes. Nid yw hyn yn golygu mwy o wybodaeth. Yn wir, rydym o'r farn y dylem symleiddio'r ybodaeth y mae'n ofynnol i Gynghorau ei chyhoeddi.

Mae'r wybodaeth iawn, fodd bynnag, yn caniatáu i reolwyr, Cynghorwyr a'r cyhoedd weld sut mae pethau'n newid dros amser, sylwi pan mae perfformiad yn gwaethygu, a chymharu perfformiad un Cyngor ag eraill. Un enghraifft o hyn yw gwefan Fy Ysgol Leol, sy'n caniatáu i rieni gymharu eu hysgol nhw ag eraill (http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym).

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cael un gwefan lle bydd gofyn i Gynghorau gyhoeddi gwybodaeth y gall y cyhoedd ei defnyddio i gymharu sut mae Cynghorau'n perfformio ac i herio gwasanaethau i wella. Gallai'r wefan hon hefyd gynnwys:

- y cynllun llesiant lleol;
- adroddiadau ar Gynghorau unigol gan gyrff arbenigol fel Swyddfa Archwilio Cymru a'r cyrff sy'n arolygu addysg a gwasanaethau cymdeithasol;

- adroddiadau ar hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid;
- y cynllun corfforaethol; a
- gwybodaeth am gwynion

### 7.3 Cynghorau Digidol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod gan dechnoleg ddigidol botensial anferthol i newid y modd o ddarparu gwasanaethau a'r modd o fynnu bod Cynghorau'n atebol. Mae angen canolbwyntio ar systemau sy'n hawdd i'w defnyddio ac sydd â mynediad agored. Rydym yn amau bod y mwyafrif o'r Cynghorau'n deall yn iawn y math o newid diwylliannol y mae galw amdano i sicrhau bod technoleg yn cael yr effaith fwyaf.

Rydym wedi gwneud ein bwriad yn eglur bod yn rhaid darlledu cyfarfodydd Cyngor a Gweithrediaeth yn fyw ar-lein fel bod mwy o bobl yn gallu chwarae rhan a gweld beth sy'n digwydd yn eu hardal. Nawr, rydym eisiau mynd ymhellach. Rydym eisiau rhoi'r hawl i'r cyhoedd ddweud eu dweud ynglŷn ag unrhyw eitem agenda yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor neu ei Bwyllgorau, ac i'w barn gael ystyriaeth. Rydym hefyd o'r farn bod gan y cyhoedd hawl i adrodd neu ddweud eu dweud trwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod pob cyfarfod cyhoeddus yn y Cyngor.

### 7.4 Cwynion

Mae cwynion yn rhoi gwybodaeth werthfawr sy'n gallu arwain at welliannau. Rydym eisiau i Gynghorau roi cymaint o ffyrdd â phosibl i gymunedau a phobl gwyno, a dweud wrthynt am broblemau y maent yn eu hwynebu â gwasanaethau, ac i'r Cyngor baratoi adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio'u hystyried, gan fanylu ar wybodaeth am nifer y cwynion, eu testun a sut maent wedi'u datrys.

**Rydym eisiau:**

- ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau ysgrifennu a chyhoeddi cynllun bob blwyddyn sy'n dangos beth y byddant yn ei wneud yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir i wasanaethu eu cymuned;
- adeiladu gwefan sy'n cynnwys gwybodaeth am bob Cyngor a sut hwyl maent yn ei chael ar bethau o'u cymharu â Chynghorau eraill; ac
- i Gynghorau fod â ffyrdd i bobl gwyno pan mae yna broblem. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd ar-lein.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Perfformiad ym maes Llywodraeth Leol, cyfeiriwch at Bennod 7 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 8. Cryfhau Rôl Gwaith Adolygu

Mae gwaith craffu cyhoeddus yn rhan hanfodol o wneud yn siŵr bod Cynghorau'n effeithiol ac yn atebol. Telir am Gynghorau trwy drethi, a dylai eu penderfyniadau a'r camau y maent yn eu cymryd fod yn agored i'w harchwilio bob amser, a dylai'r cyhoedd chwarae rhan yn hyn o beth.

Y prif ffyrdd y mae hyn yn digwydd mewn Cynghorau yw trwy archwiliadau mewnol y mae Cynghorwyr sy'n eistedd ar bwyllgorau craffu'n eu cwblhau, ac archwiliadau allanol y mae arbenigwyr annibynnol yn eu cwblhau.

### 8.1 Gwaith Adolygu Mewnol – Craffu gan Gynghorwyr

Nid yw'r mwyafrif o Gynghorwyr yn rhan o'r Weithrediaeth. Hynny yw, nid ydynt yn chwarae rhan mewn penderfyniadau ar wariant o ddydd i ddydd neu mewn rhedeg y Cyngor. Un o'u cyfrifoldebau pwysicaf yw archwilio cynlluniau a phenderfyniadau'r Weithrediaeth a'r uwch dîm rheoli, ac awgrymu gwelliannau. Maent yn gwneud hyn trwy bwyllgorau craffu.

Mae gwaith craffu da yn arwain at wneud gwell penderfyniadau ac yn cefnogi gwasanaethau gwell. Rhaid i waith craffu da:

- fod yn annibynnol ar y Weithrediaeth;
- cael ei gynllunio ymlaen llaw fel bod pobl yn gallu paratoi;
- bod ag adnoddau digonol;
- bod â'r wybodaeth iawn wrth law; a
- thynnu ar brofiad a barn defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a grwpiau cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cryn dipyn mewn blynyddoedd diweddar i gryfhau gwaith craffu, ond rydym o'r farn y gellid ei gryfhau mwy fyth. Rydym yn ceisio barn ar p'un a ddylai Cynghorau wneud mwy i amddiffyn annibyniaeth gwaith craffu, galluogi gwaith craffu i edrych ar brif benderfyniadau'r Weithrediaeth cyn iddynt ddod yn benderfyniadau terfynol, manylu'n glir ar yr hyn a fydd yn destun gwaith craffu yn y dyfodol, a rhoi'r un hawliau pleidleisio i aelodau annibynnol y pwyllgorau craffu â hawliau Cynghorwyr. Gan fod llawer o wasanaethau bellach yn cael eu darparu mewn partneriaeth rhwng gwahanol gyrff, rydym hefyd eisiau gwybod a ddylai pwyllgorau craffu Cynghorau allu edrych ar yr holl wasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.

### 8.2 Rhoi Llais i Bobl mewn Gwaith Craffu

Mae pobl am gael eu cynnwys ac am gymryd rhan os ydynt o'r farn y gallant wneud gwahaniaeth. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gwaith asesu gwasanaethau a'r modd o'u darparu. Mae hyn yn digwydd mewn rhai Cynghorau, ond nid ym mhob un. Rydym eisiau mwy o gyfleoedd i bobl allu cymryd rhan a dweud eu dweud ynglŷn â gwella gwasanaeth, a gallu gofyn i bwyllgorau craffu edrych ar bethau y maent yn pryderu yn eu cylch mewn Cyngor.

### 8.3 Craffu ar Wasanaethau Rhanbarthol

Mae llawer o wasanaethau bellach yn cael eu darparu gan nifer o Gynghorau'n cydweithio, er enghraifft, gwasanaethau gwella mewn addysg. Gall hyn olygu bod y corff sy'n darparu'r

gwasanaethau'n cael ei archwilio ar wahân gan bob Cyngor unigol. Gall hyn gymryd llawer o amser ac mae'n wastrafflyd. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai Cynghorau sy'n cydweithio sefydlu cyd-bwyllgor craffu i archwilio gwaith y darparwr gwasanaeth.

### 8.4 Gwaith Adolygu Allanol – Gwaith Craffu gan Gyrff Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio

Mae yna nifer o gyrff annibynnol sydd wedi'u sefydlu mewn cyfraith i edrych ar beth y mae Cynghorau'n ei wneud. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n edrych ar sut maent yn gwario arian cyhoeddus ac yn penderfynu a ydynt yn rhoi gwerth am arian. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n arolygu gwaith gofal cymdeithasol Cynghorau, ac yn rheoleiddio gofal plant a chartrefi gofal. Mae Estyn yn arolygu addysg a gwasanaethau plant Cynghorau, gan gynnwys ysgolion. Maent yn chwarae rhan werthfawr iawn gan ddangos sut mae Cynghorau'n perfformio o safbwynt annibynnol a dangos a yw gwasanaethau'n cyrraedd y safonau gofynnol.

Rydym o'r farn y dylai'r cysylltiadau rhwng grwpiau sy'n cynnal adolygiadau allanol a phwyllgorau craffu fod yn gryfach. Trwy rannu gwybodaeth, gall pwyllgorau craffu dynnu ar arbenigedd annibynnol y cyrff adolygu allanol i ofyn cwestiynau mwy heriol ynglŷn â meysydd sy'n achosi pryder.

Rydym hefyd o'r farn y dylem gryfhau'r cydweithio rhwng y cyrff adolygu allanol. Bob dwy flynedd, fe ddylent gydweithio i gynhyrchu adroddiad ar bob Cyngor, yn ogystal ag asesiad blynyddol o Lywodraeth Leol fel cyfanwaith ar draws Cymru. Dylent ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y mae Cynghorau'n ei wneud ac ar nodi enghreifftiau o arfer da fel bod Cynghorau'n gallu dysgu'r naill oddi wrth y llall.

**Rydym eisiau:**

- i bwyllgorau craffu gynllunio'n well;
- i'r cyhoedd chwarae rhan fwy mewn gwaith craffu; ac
- grwpiau sy'n chwarae rhan mewn archwiliadau allanol rannu gwybodaeth, gweithio gyda Chynghorau ac ysgrifennu adroddiad gyda'i gilydd; yn ogystal â chael eu hadroddiadau blynyddol eu hunain.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Cryfhau Rôl Gwaith Adolygu, cyfeiriwch at Bennod 8 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 9. Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol

Mae yna lawer o newidiadau rydym eisiau eu gwneud trwy'r Papur Gwyn hwn, ond fe fyddant yn gwneud gwir wahaniaeth i gymunedau ledled Cymru a'r bobl sy'n byw ynddynt. I gefnogi'r newidiadau hyn, mae hefyd yn gwneud synnwyr i ni adolygu ein modd o ariannu'r gwaith y mae Cynghorau'n ei wneud.

Mae Cynghorau yng Nghymru'n gwario dros £8 biliwn y flwyddyn ar gostau rhedeg ac ar ddarparu gwasanaethau. Daw'r arian hwn o lawer o wahanol leoedd: Llywodraeth Cymru, grantiau, y dreth gyngor a mwy.

Mae'r ffordd y mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd yn gymhleth ac mae yna bethau eraill sy'n digwydd yng Nghymru, fel grymoedd trethu newydd, a fydd yn darparu sail ar gyfer ein hopsiynau ar gyfer newid. Fodd bynnag, nid yw newid ein systemau ariannu'n ddi-risg ac rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn ei wneud yn iawn. Ni fyddwn yn newid y system gyfan ar unwaith, ond byddwn yn gwneud yn siŵr bod y system bresennol yn barod ar gyfer yr amser y bydd y Cynghorau mwy, newydd yn dechrau cymryd yr awenau.

Mae angen i ni hefyd feddwl yn y tymor hir. Mae angen i ni ystyried sut gellir newid systemau ariannu fel bod Cynghorau'n fwy atebol i bobl leol pan maent yn penderfynu beth i wario eu harian arno.

Ar hyn o bryd, daw cyllid ac arian buddsoddiadau cyfalaf Cynghorau o lawer o wahanol leoedd, ac rydym eisiau edrych i weld a yw'r cydbwysedd yn iawn rhwng yr hyn a ddaw o gyllid cenedlaethol a'r hyn y mae Cynghorau'n ei godi'n lleol, fel y dreth gyngor. Mae angen i ni hefyd ystyried sut gallwn gysylltu ariannu â pherfformiad gwasanaethau Cyngor. Fe fydd gofyn meddwl cryn dipyn yn fwy am y pethau hyn, a byddwn yn cyhoeddi papurau pellach ar hyn maes o law.

**Rydym eisiau system newydd sydd:**

- yn eglur ac yn syml;
- yn gweithio ac yn rheoli ein hadnoddau'n dda;
- yn rhoi llinellau atebolrwydd clir fel bod Cynghorau newydd yn gallu dangos beth y maent yn gwario arian arno;
- â chysylltiadau clir rhwng swm yr ariannu a swm y canlyniadau, fel bod gwasanaethau'n gallu gwella;
- yn annog meddwl, cynllunio a syniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau;
- yn helpu cymunedau lleol i chwarae rhan; ac
- yn helpu â gwneud penderfyniadau.

**I ddarllen ein cynigion llawn ar gyfer Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, cyfeiriwch at Bennod 9 y Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.***

**http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy**

## 10. Casgliad

Diolch am ddarllen hwn. Os ydych eisiau darllen y ddogfen lawn, neu roi gwybod i ni beth rydych yn meddwl o'n cynigion, yna llenwch ein holiadur ar-lein sydd i'w gael ar ein gwefan:

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?lang=cy

Neu gallwch chi anfon eich sylwadau at:

Diwygio Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu trwy e-bost i: RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk

**28 Ebrill 2015 yw'r dyddiad cau.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth 2015** |
| **PWNC** | **Grant Gwella - Llywodraeth Cymru** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf a derbyn arweiniad ar y ffordd ymlaen** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

Cefndir

1. Yn sgil dyfodiad Mesur Llywodraeth Lleol 2011 (Cymru) gwelwyd cryn ddatblygiadau a chynnydd yn y gofyn a'r disgwyliadau ar aelodau etholedig. Mae'r Mesur hefyd yn nodi gofynion ar Lywodraeth Leol i gefnogi aelodau etholedig i gyflawni yn llwyddiannus yn eu rolau. Mae'r gefnogaeth yma yn gallu bod trwy amrywiol ffyrdd (hyfforddiant, swydd ddisgrifiadau clir, cyfweliadau datblygiad personol ayyb).

2. Bydd y pwyllgor yn cofio fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi chware rhan annatod yn cynorthwyo Llywodraeth Lleol i ddatblygu ac ymateb i ofynion y ddeddf drwy arwain ar nifer o ddatblygiadau penodol a chyd-ddatblygu elfennau eraill ar ein rhan. Mae nifer fawr o drafodaethau y Pwyllgor hwn wedi bod yn seiliedig ar arweiniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol dros y blynyddoedd diwethaf.

3. Yr ydym ar ddeall nawr fod y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews wedi penderfynu y bydd Grant Gwella Llywodraeth Cymru yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2015.

4. Fel y mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, bydd hyn yn arwain at ddiddymu y Timau Cydraddoldeb a Gwella yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol sy'n ymdrin â pherfformiad. Bydd y gwasanaethau a gyflwynir gan y timau hyn yn dod i ben.

Ymgynghoriad Fframwaith Cymwyseddau

5. Y mae'r ymgynghoriad 'Fframwaith Cymwyseddau' sydd ynghlwm yn Atodiad A yn enghrhaifft o waith y CLlLC, mae'n elfen bwysig o gefnogaeth i Aelodau. Mae'r ymgynghoriad wedi ei rannu gyda'r holl aelodau trwy Rhaeadr ar y 6ed o Chwefror gan ofyn i aelodau gyflwyno sylwadau er ystyriaeth yn y Pwyllgor neu yrru sylwadau yn uniongyrchol i CLlLC.

Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr

6. Fe gofiwch fod CLlLC wedi llunio Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru, y cyfeirir ati ar lafar fel 'Siarter Aelodau'. Datblygwyd y Siarter ar ei newydd wedd yn 2012/13 gan ymgynghori â chylchoedd gwleidyddol a swyddogion cynorthwyo aelodau pob awdurdod. Mae elfennau o'r freinlen yn cyd-fynd ac yn adeiladu ar ofynion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru) a grybwyllwyd eisoes.

7. Bellach, fodd bynnag, oherwydd y sefyllfa a nodir yn 3 a 4 uchod, sef diddymu y Tim yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ni fydd modd i Gyngor Gwynedd ennill cymhwyster y Siarter gan na fydd neb ar gael i'w dyfarnnu.

8. Fodd bynnag, ystyrir fod elfennau a gynhwyswyd o fewn y Siarter yn bwysig iawn, (ee swydd ddisgrifiadau cymwys, sicrhau rhaglen hyfforddiant lawn ayyb) gan eu bod yn cefnogi egwyddorion y Cyngor ynghylch cefnogi datblygiad aelodau etholedig i'w galluogi i weithredu yn llwyddiannus yn eu rolau. Ystyrir y dylid parhau i adnabod a gweithio tuag at yr elfennau pwysig o'r Siarter er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth briodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer Aelodau Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn hynod o bwysig fel gwaith rhag-baratoadol er mwyn sicrhau fod yr holl elfennau pwysig mewn lle erbyn etholiadau nesaf Llywodraeth Lleol.

9. Gofynnir i'r Pwyllgor

   A) ystyried a oes ganddynt unrhyw sylwadau penodol ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad, yn arbennig y cwestiynau penodol a ofynnwyd.

   B) gefnogi y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i barhau i adnabod yr elfennau pwysig o'r Siarter i sicrhau fod y gefnogaeth briodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn hynod bwysig i barhau i weithio arno yn awr gydag golwg o gael yr holl elfennau pwysig mewn lle erbyn etholiadau Llywodraeth Lleol nesaf.

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus CLlLC ar gyfer Cynghorwyr 2015

## Drafft at ddiben Ymgynghori

### Fframwaith Cymwyseddau

**Mae'r fframwaith cymwyseddau hwn yn disgrifio'r amrediad o sgiliau a gwybodaeth mae eu hangen ar aelodau etholedig a set o ymddygiadau effeithiol cysylltiedig. Cafodd ei lunio gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan weithio gydag aelodau a swyddogion ledled Cymru a'r bwriad yw iddo gael ei ddefnyddio gan aelodau wrth iddynt ystyried eu hangen am ddatblygiad proffesiynol neu adolygu eu perfformiad. Yn ogystal mae'n cynnig "cwricwlwm" i awdurdodau wrth ddatblygu strategaethau lleol ar gyfer datblygiad aelodau. Mae'r Fframwaith yn cynnwys amrediad o gymwyseddau generig sy'n ofynnol i bob aelod ac adrannau ar wahân ar gyfer rolau penodol ar y cyngor er mwyn i aelodau gael defnyddio rhai adrannau'n ddetholus.**

### Ymgynghori

**Trafodwch hyn mor eang â phosibl o fewn eich Cyngor. Mae gennym ni ddiddordeb ym marn swyddogion ac aelodau, yn arbennig aelodau ym mhob rôl a swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau Democrataidd, Craffu a Datblygiad sefydliadol. Ystyriwch:**

1. **Ydy'r Fframwaith yn trafod rôl pob aelod yn ddigonol?**

   **Os nad yw, beth ddylai gael ei ychwanegu (gan gadw mewn cof na ddylai'r ddogfen fynd yn rhy hir neu gymhleth)**

   **Beth mae angen ei dynnu o bosib (yn benodol, oes angen pob agwedd ar adran 10 ac adran 11?)**

2. **Ydy'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio'n ystyrlon i aelodau?**

   **Os na beth allai gael ei ddefnyddio yn ei lle?**

   **Dyddiad cau am ymatebion 4 Mawrth 2015**
   **Dychwelwch i Sarah Titcombe 029 2046 8638**
   **sarah.titcombe@wlga.gov.uk**

DRAFT

## 1. Hanfodion: Amrediad o sgiliau generig sy'n ofynnol gan bob aelod

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Dealltwriaeth o rôl y Cynghorydd** | Graddfa a chyfyngiadau cyfrifoldebau a phwerau unigol cynghorydd a chyfrifoldebau mewn llywodraethu corfforaethol.<br>Hefyd cyfrifoldebau corfforaethol fel rhianta corfforaethol a diogelu plant ac oedolion hawdd eu niweidio. | Ymgymryd â'i rôl yn effeithiol yn y cyngor, y gymuned a chydag asiantaethau partner.<br>Deall pryd mae'n briodol ac yn amhriodol gweithredu dros y ward neu er budd yr ardal gyfan.<br>Gweithredu'n rhagweithiol i ddarparu canlyniadau o fewn cyfrifoldebau corfforaethol. |
| **Dealltwriaeth o rôl yr Awdurdod Lleol** | Dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd i'w darparu, yn rhai statudol a dewisol, a'r polisïau, gweithdrefnau, cynlluniau a strategaethau sy'n eu hategu. | Gallu disgrifio gwaith y cyngor i'r cyhoedd a lle mae'r cyfrifoldebau hyn yn nwylo asiantaethau eraill fel cynghorau cymuned a thref, y sector gwirfoddol neu Lywodraeth Cymru.<br>Cyfrannu at ddatblygiad cynlluniau a strategaethau cyngor ac yn cymryd penderfyniadau yng ngoleuni'r rhain. |
| **Ymddygiad** | Dealltwriaeth o'r fframwaith moesegol sy'n llywodraethu gwaith cynghorwyr, yn arbennig y Cod Ymddygiad.<br>Dealltwriaeth o rôl y swyddog monitro.<br>Cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd, cywirdeb a thryloywder i lywodraethu da. | Ufuddhau i'r Cod Ymddygiad ar bob adeg.<br>Datgan a diffinio buddiannau bob tro.<br>Gofyn am gyngor y swyddog monitro pan fo'n briodol.<br>Trin pobl eraill gyda pharch ym mhob sefyllfa.<br>Dangos cywirdeb.<br>Gwerthfawrogi eraill.<br>Gwrando.<br>Aros yn ddigyffro mewn sefyllfaoedd anodd. |
| **Cydraddoldebau a pharch** | Sgiliau personol wrth ddangos parch tuag at eraill beth bynnag eu rhyw, hil, crefydd, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth neu gyfeiriadedd rhywiol.<br>Deall y gyfraith Cydraddoldebau ac Amrywiaeth mewn perthynas â gwaith y cyngor a rôl y cynghorydd.<br>Deall yr angen am ymddygiad parchus tuag at eraill a'r hyn sy'n cyfrif yn ymddygiad parchus. | Cymhwyso deddfwriaeth gydraddoldeb briodol a dangos gwerthoedd cydraddoldeb yn ei ymddygiad personol ac y mhenderfyniadau'r cyngor.<br>Trin pawb gyda pharch ar bob adeg wrth weithredu'n gynghorydd boed yn y Cyngor, y gymuned neu mewn grŵp gwleidyddol. |

DRAFT

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio** | Dealltwriaeth o rôl cyrff Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio a phrosesau cysylltiedig y cyngor. | Ymwneud yn effeithiol â'r broses archwilio, arolygu a rheoleiddio o fewn y cyngor, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i herio a chefnogi'r gwasanaethau dan sylw yn effeithiol. |
| **Cydbwyso ymrwymiadau** | Dealltwriaeth o egwyddorion rheoli amser gan gynnwys blaenoriaethu a dirprwyo. | Cynnal cydbwysedd gwaith/bywyd effeithiol, gan reoli'r amser sydd ar gael i ganolbwyntio ar y materion â'r canlyniadau mwyaf arwyddocaol. |
| **Rheoli gwybodaeth** | Dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol deddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.<br>Deall a dehongli gwybodaeth a data.<br>Gallu i drin data yn y fformat a ddarperir gan y cyngor. | Derbyn gwybodaeth a data o amrywiaeth o ffynonellau ac yn gallu ei storio, ei rhannu a'i defnyddio yn effeithiol a lle bo'n bosibl yn electronig.<br>Peidio â chadw cofnodion am bobl heb ofyn am eu cytundeb.<br>Ymateb yn brydlon ac yn briodol i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. |
| **Defnyddio TGCh a chyfryngau cymdeithasol** | Medrus ym mhob cymhwysiad 'Office' fel prosesu geiriau, cyflwyno a thaenlenni. A chymwysiadau cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol gan gynnwys e-bost, trydar, blogio a rheoli gwefan bersonol. | Cynnal holl fusnes cyngor yn electronig.<br>Cyfathrebu â'r gymuned yn electronig a thrwy gyfryngau cymdeithasol lle bo'n briodol.<br>Cynnal presenoldeb effeithiol, cadarnhaol a moesegol ar-lein. |
| **Paratoi a chymryd rhan mewn cyfarfodydd** | Deall rheolau sefydlog, Protocolau a rheolau trafod.<br>Sgiliau siarad cyhoeddus, trafod, holi. | Paratoi'n effeithiol am gyfarfodydd drwy ddarllen papurau, dadansoddi data, ymgymryd ag ymchwil bersonol a chymryd rhan mewn unrhyw rhag-gyfarfodydd.<br>Cyfrannu at ganlyniadau positif cyfarfod drwy chwilio am benderfyniadau neu weithredoedd pendant.<br>Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd gan wneud pwyntiau'n glir ac yn gryno.<br>Cynnal ffocws ar y busnes dan sylw.<br>Deall a chymhwyso 'rheolau' cyfarfod<br>Ceisio arweiniad oddi wrth swyddogion ac arweinwyr grŵp cyn cyfarfodydd fel y bo'n briodol. |
| **Gweithio gyda'r cyfryngau** | Sgiliau wrth feithrin cysylltiadau â'r cyfryngau a chael cyfweliadau gan y teledu, radio a'r wasg. | Ffynhonnell gydnabyddedig gwybodaeth gredadwy i'r cyfryngau. Siarad yn hyderus, yn awdurdodol ac yn briodol mewn cyfweliadau. Gwella enw da'r cyngor wrth ymddangos ar y sgrin neu mewn print. |
| **Hunan-hyrwyddo** | Y gallu i ddatblygu proffil yn y gymuned drwy weithgareddau | Ysgrifennu adroddiad blynyddol am gyflawniadau a gweithgareddau. |

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| | lleol a chyfathrebu ac ymgynghori'n effeithiol. | Gweladwy iawn yn y ward.<br>Cynnal safon uchel o ran enw da personol ac enw da'r cyngor. |
| **Gweithio gyda swyddogion** | Dealltwriaeth o rôl swyddogion yn gyffredinol a'r 'rheolau' mae'n rhaid iddynt eu parchu gan gynnwys dealltwriaeth ddyfnach o rôl uwch swyddogion fel y Prif Weithredwr, yr uwch dîm rheoli, swyddog Monitro a Phenaethiaid Cyllid, Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd.<br>Sgiliau wrth weithredu'n gyflogwr corfforaethol.<br>Dealltwriaeth o'r broses benodiadau a sgiliau cyfweld. | Cynnal cysylltiadau proffesiynol â swyddogion, gan gydnabod ffiniau priodol a'u parchu.<br>Gweithredu'n aelod effeithiol o banel penodi gan gymhwyso egwyddorion cadarn adnoddau dynol a chydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau'r ymgeisydd gorau. |
| **Iechyd a diogelwch** | Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yng ngwaith y cyngor.<br>Deall sut i asesu risgiau a sicrhau diogelwch personol a diogelwch pobl eraill. | Hyrwyddo a sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y cyngor. Sicrhau diogelwch personol wrth weithio yn y cyngor ac mewn grwpiau neu ar ei ben/ei phen ei hun yn y gymuned. |
| **Datblygiad proffesiynol a phersonol parhaus** | Gallu nodi anghenion datblygiad personol a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu. | Cynnal adolygiadau datblygiad personol rheolaidd gan gymryd i ystyriaeth disgrifiadau rôl a fframweithiau cymwyseddau. Cymryd cyfrifoldeb dros ddatblygu sgiliau a gwybodaeth bersonol, mynychu gweithgareddau dysgu a datblygu gan chwilio am ganlyniadau pendant. |
| **Gallu ariannol** | Deall sut mae cynghorau a gwasanaethau'n cael eu hariannu.<br>Dealltwriaeth a sgiliau mewn pennu cyllidebau.<br>Gallu ariannol personol.<br>Deall effaith diwygiadau lles a'r agenda caledi ariannol. | Ymwneud yn effeithiol yn y broses pennu cyllideb.<br>Bodlon cymryd penderfyniadau anodd, ar sail y dystiolaeth.<br>Dangos sgiliau rhifedd wrth ddehongli data a gofyn cwestiynau. |
| **Sgiliau rhyngbersonol** | Hunan-ymwybyddiaeth, a sgiliau hunan-reoli, "moesau da", deallusrwydd emosiynol, gwrando. Sgiliau cyd-drafod, rheoli anghydfod a chyfryngu. | Ymddwyn mewn ffordd broffesiynol a pharchus tuag at bawb ac ym mhob man. Yn hunan-ymwybodol ac yn gallu datblygu a rheoli perthnasoedd o fewn y cyngor a'r tu allan.<br>Broceru perthnasoedd ac yn rheoli anghydfod yn y gymuned a'r cyngor a rhwng y ddau. |
| **Datblygiad cynaliadwy** | Deall materion sy'n effeithio ar | Gwneud penderfyniadau ar sail |

DRAFT

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| | genedlaethau'r dyfodol fel iechyd a llesiant, diogelwch ariannol a'r amgylchedd. | anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r boblogaeth bresennol. |

## 2. Arweinyddiaeth Leol. Amrediad o sgiliau sy'n ofynnol gan bob cynghorydd yn eu rôl fel arweinwyr cymunedol

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Gweithio gyda'r gymuned** | Gwybod am grwpiau ac arweinwyr y gymuned.<br>Deall ystyriaethau a phryderon y gymuned.<br>Gallu ceisio barn pob parti perthnasol. | Deall anghenion y gymuned leol a sicrhau gweithredu gan y cyngor r ran pobl leol.<br>Cyfathrebu â'r gymuned, unigolion a'r cyngor i sicrhau ymgysylltiad a dealltwriaeth pob parti. |
| **Ymgynghori ac ymgysylltu** | Deall lefelau gwahanol ymgysylltiad sy'n amrywio o gyfathrebu i gyd-gynhyrchu a bennir yn egwyddorion cenedlaethol ymgysylltu i Gymru. http://www.participationcymru.org.uk/national-principles | Dangos canlyniadau positif o ganlyniad i ymgysylltu'n effeithiol. |
| **Sector gwirfoddol** | Deall rôl a chyfrifoldebau'r sector gwirfoddol yn yr ardal. | Meithrin perthnasoedd effeithiol â'r sector gwirfoddol ac yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda hwy pan fo'n briodol. |
| **Materion lleol** | Deall yr ystyriaethau sy'n bwysig i bobl yn lleol a ledled ardal y cyngor.<br>Gwybod pa gynlluniau'r cyngor fydd yn effeithio ar ystyriaethau lleol. | Gweithio gyda'r gymuned a'r cyngor i ddod o hyd i atebion i broblemau lleol.<br>Sicrhau arian ar gyfer mentrau lleol. |
| **Gweithio gyda chynghorau cymuned a thref** | Deall cyfrifoldebau cynghorau cymuned a'u blaenraglenni gwaith. | Gweithio gyda chynghorau cymuned i ddarparu canlyniadau i'r gymuned.<br>Meithrin cysylltiadau positif a chyfathrebu gweithredol â'r cyngor cymuned a'r clerc. |

## 3. Gwaith Achos

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Bod yn hygyrch i'r cyhoedd** | Deall a gallu trefnu a hysbysebu cyfleoedd i drafod gwaith achos gyda'r cyhoedd. | Trefnu bod ar gael drwy'r dulliau mwyaf priodol i gysylltu â'r nifer uchaf o bobl. Defnyddio cymorthfeydd, cymorthfeydd stryd, lleoliadau anffurfiol, cyfryngau cartref a chyfryngau cymdeithasol |

DRAFT

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| | | fel y bo'n briodol. Dim ond addo'r hyn a all gael ei gyflawni. |
| **Rheoli gwaith achosion** | Gallu i ddefnyddio technegau a meddalwedd rheoli achosion a monitro a chyfathrebu'r cynnydd. | Rhoi gwybod yn gyson i'r bobl mae'n gweithio ar eu rhan am y cynnydd.<br>Monitro cynnydd achosion ar ôl iddynt gael eu cyfeirio at swyddogion neu asiantaethau eraill.<br>Defnyddio'r cynlluniau atgyfeirio sefydledig o fewn y cyngor. |
| **Arwyddbostio** | Gwybod am ffynonellau gwybodaeth a chyngor o fewn y cyngor a'r tu allan iddo. | Creu cysylltiadau rhwng aelodau'r cyhoedd a'r ffynhonnell gymorth briodol yn y cyngor neu yn y gymuned. |

## 4. Craffu

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Deall rôl a photensial craffu i hybu gwelliannau** | Deall nodweddion craffu effeithiol (insert hyperlink when available) | Cyfrannu at y rhaglen waith.<br>Osgoi gweithredu'n wleidyddol neu'n blwyfol wrth adolygu polisi neu fonitro perfformiad.<br>Rhoi blaenoriaeth i'r meysydd gwaith lle gall craffu wneud gwahaniaeth.<br>Hyrwyddo gwaith craffu o fewn y cyngor. |
| **Datblygu polisi** | Deall y maes gwasanaeth neu swyddogaeth y cyngor y mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano. | Gwneud argymhellion gwybodus ar sail tystiolaeth ar gyfer gwaith llunio polisi. |
| **Cynnal y Weithrediaeth i Gyfrif** | Gallu i adolygu a herio gwaith a phenderfyniadau'r Weithrediaeth yn adeiladol.<br>Deall defnydd y pŵer i alw penderfyniadau Cabinet i mewn. | Monitro a herio gwaith y weithrediaeth yn effeithiol er lles gorau'r gymuned. |
| **Monitro perfformiad** | Gallu i ddeall data cymhleth, gwybodaeth ariannol, risg, adroddiadau cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio, a gwybodaeth arall sy'n ofynnol i fesur perfformiad. | Nodi a herio perfformiad gwael ar sail tystiolaeth. |
| **Sgiliau cyfarfodydd** | Gallu i baratoi'n drylwyr am gyfarfodydd. Gallu i ddeall a chyfrannu at y strategaeth holi.<br>Gallu i wrando a holi'n | Gwrando'n astud ac yn effeithiol.<br>Gwneud defnydd priodol ar rag-gyfarfodydd i gynllunio strategaeth holi.<br>Canolbwyntio ar ganlyniadau |

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
| --- | --- | --- |
| | effeithiol trwy gydol y cyfarfod. | cyfarfod gan ddefnyddio prosesau cyfarfod yn fodd i wneud hynny. |
| **Ymgysylltu â'r cyhoedd o ran craffu** | Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o raglenni craffu a gwaith.<br>Gallu i ymgysylltu ag unigolion a chyrff yn arbennig y sawl sydd wedi eu heithrio'n draddodiadol. | Annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud polisi a phenderfyniadau trwy graffu. |
| **Cyd-graffu** | Deall rôl, cylch gorchwyl a phwerau unrhyw gydbwyllgor craffu a rôl yr aelod unigol ar y pwyllgor hwnnw.<br>Deall rôl, cyfrifoldebau a blaenoriaethau cyrff rhanbarthol, a phartneriaethau a chyrff tu allan i'r cyngor y bydd angen i'r pwyllgor graffu arnynt o bosib. | Dangos ymrwymiad i weithio ar y cyd ag aelodau craffu o awdurdodau, partneriaethau a chyrff eraill. |

## 5. Cadeirio

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
| --- | --- | --- |
| **Rheoli cyfarfodydd** | Deall protocolau cyfarfodydd a rheolau trafod.<br>Gallu i reoli'r agenda, cyfraniadau ac amser.<br>Gallu i ymgysylltu â'r cyhoedd a'r wasg a gwylwyr yn achos cyfarfodydd sy'n cael eu gwe-ddarlledu. | Cadeirio'n glir ac yn awdurdodol, gan orfodi'r rheolau ac annog cyfranogiad teg.<br>Rheoli'r agenda drwy gyflwyno eitemau, crynhoi'r drafodaeth, canolbwyntio ar ganlyniadau a chyfyngu ar gyfraniadau nad ydyn yn cyfrannu at y canlyniadau.<br>Sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo bod croeso iddynt, deall diben y cyfarfod a sut mae cyfrannu. |
| **Arwain pwyllgor** | Dealltwriaeth fanwl o rôl y pwyllgor a'i gwmpas. Gallu i gydgysylltu â swyddogion, aelodau ac asiantaethau perthnasol.<br>Ymrwymiad i alluogi pob aelod pwyllgor i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd. | Gweithio gyda'r pwyllgor tu allan i gyfarfodydd i ddatblygu ei effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd yr unigolion sy'n rhan ohono.<br>Cyfathrebu ag aelodau a swyddogion sydd â diddordeb yn nhrafodion y pwyllgor.<br>Meithrin perthnasoedd â'r Penaethiaid gwasanaeth/ cyfarwyddwyr perthnasol er mwyn |

DRAFT

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| | | sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn berthnasol, yn wybodus ac yn darparu'r canlyniadau gofynnol. |
| **Llunio a rheoli rhaglen waith** | Deall y pynciau sydd o fewn cwmpas y pwyllgor a sut mae'r rhain yn rhyngweithredu â pholisïau'r cyngor yn gyffredinol a rolau pwyllgorau eraill.<br>Gallu i ddatblygu rhaglen waith gytbwys ar gyfer y pwyllgor a chylch gwaith a chanlyniadau clir ar gyfer unrhyw is-grwpiau. | Gweithio gyda swyddogion ac aelodau pwyllgor i ddatblygu'r cynllun gwaith gan gymryd i ystyriaeth sut mae'n cyd-fynd â gwaith pwyllgorau eraill.<br><br>Sicrhau bod y rhaglen waith yn cymryd i ystyriaeth cynlluniau, polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac anghenion y gymuned am wasanaethau.<br><br>Sicrhau bod y pwyllgor hefyd yn cymryd i ystyriaeth arolygiadau neu adroddiadau oddi wrth gyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio. |
| **Sicrhau adnoddau** | Sicrhau bod gan y pwyllgor y staff, yr wybodaeth a'r cyllid i weithredu'n effeithiol | Cyd-drafod a sicrhau'r gefnogaeth mae ei hangen ar y pwyllgor. |

## 6. Statudol/Rheoleiddiol

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Cynllunio** | Deall y gyfraith cynllunio a hawliau tramwy yn gyffredinol.<br>Deall sut i gymhwyso'r Cod Ymddygiad i faterion cynllunio.<br>Datgan buddiannau fel y mae'n berthnasol i faterion cynllunio.<br>Deall y Cynllun Datblygu Lleol.<br>Deall 'rheolau' Rheoli Datblygiad.<br>Deall egwyddorion a deddfwriaeth Datblygiad Cynaliadwy gan gynnwys ystyriaethau amgylcheddol, lles a dylunio. | Dangos gwrthrychedd drwy gymryd penderfyniadau annibynnol ar sail tystiolaeth a'r cyfrifoldeb cyfreithiol sydd ar aelodau sy'n gweithredu mewn rôl led-fawrnrol.<br><br>Dilyn y Cod Ymddygiad yn dryloyw.<br><br>Ceisio cyngor, datblygiad neu friffio priodol cyn cymryd penderfyniadau. |
| **Archwilio** | Gallu i graffu ar berfformiad ariannol. Dealltwriaeth o reoli risg a threfniadau archwilio mewnol ac allanol. | |

DRAFT

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| | Dealltwriaeth o rolau cymharol archwilio a chraffu. | |
| **Trwyddedu** | Dealltwriaeth o reoliadau Trwyddedu a'r polisi Trwyddedu.<br>Deall polisïau lleol sy'n effeithio ar y maes hwn fel y Cynllun Cymunedol ac ystyriaethau ehangach ar gyfer cynaladwyedd. | |
| **Gwasanaethau democrataidd** | Dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.<br>Deall y gofynion am gefnogi a datblygu aelodau.<br>Cydgysylltu â'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r aelod Arweiniol dros gefnogi a datblygu aelodau.<br>Hybu amrywiaeth mewn llywodraeth leol. | |
| **Safonau** | Deall y gyfraith a'r cyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad.<br>Gallu i gynghori a sicrhau hyfforddiant i aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad | |

DRAFT

## 7. Cabinet

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Arwain portffolio** | Gwybodaeth drylwyr o feysydd gwasanaeth perthnasol.<br>Gallu i feithrin perthnasoedd â swyddogion a chadeiryddion craffu perthnasol.<br>Gallu i weithio ar y cyd i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y maes gwasanaeth. | Darparu cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion ym maes y portffolio.<br>Yn atebol am gyfathrebu, polisi a pherfformiad ym maes y portffolio.<br>Mynd ati i ofyn am a gwerthfawrogi cyfraniad craffu at ddatblygu polisi a monitro perfformiad.<br>Gweithio gyda swyddogion i ystyried materion, blaenoriaethau a chymryd penderfyniadau. |
| **Cyd-gyfrifoldeb** | Gallu i drin a thrafod gwybodaeth a chymryd penderfyniadau ar ôl ymgynghori'n llawn ac | Cymryd cyfrifoldeb fel aelod o'r cabinet dros benderfyniadau strategol y cyngor. |

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| | ystyried pob mater yn llawn.<br>Gallu i flaenoriaethu'r materion sydd bwysicaf i'r awdurdod.<br>Gallu i weithio gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill i sicrhau gwasanaethau i'r Cyngor | |
| **Gwneud penderfyniadau o dan gyfrifoldebau dirprwyedig** | Deall y cynllun dirprwyo.<br>Gallu i gymryd cyfrifoldeb dros benderfyniadau a gymerir o dan y cynllun. | Cymryd penderfyniadau ar ôl ymchwil ac ymgynghori priodol. |

DRAFT

## 8. Arweinyddiaeth Strategol

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Rheoli enw da'r cyngor** | Gallu i weithredu'n llysgennad dros yr awdurdod. | Cynrychioli'r cyngor yn effeithiol ar bob lefel gan sicrhau bod gwybodaeth am y cyngor a'i wasanaethau a'i ddinasyddion yn cael ei chyfleu'n gadarnhaol a chyda chywirdeb. |
| **Arweinyddiaeth ardal/rhanbarth/lle** | Gallu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer yr ardal/rhanbarth/lleoliad. | Gweithio gyda'r cyngor a'r cyhoedd i ddatblygu ar y cyd a chyfathrebu gweledigaeth leol sy'n eglur, sy'n cael ei chefnogi gan y cyhoedd a'i deall gan y Cyngor. |
| **Datblygu, cyfathrebu ac arwain gweledigaeth ar gyfer y cyngor** | Gallu i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer gwaith y cyngor. | Gweithio gyda'r cyngor i ddarparu'r weledigaeth leol ar y cyd. |
| **Cynnal perthynas lwyddiannus â'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli** | Gallu i gyfathrebu'n effeithiol â'r Prif Weithredwr ag uwch swyddogion.<br>Deall y broses arfarnu perfformiad a sgiliau personol wrth gynnal adolygiadau, pennu amcanion a rhoi adborth. | Cwrdd a chyfathrebu'n agored ac yn rheolaidd.<br>Gwneud disgwyliadau'n glir a darparu arweinyddiaeth wleidyddol.<br>Cynnal adolygiadau perfformiad ag uwch swyddogion fel y bo'n briodol. |
| **Arweinyddiaeth y Cyngor** | Gallu i sicrhau llywodraethu effeithiol yn unigol ac ar y cyd. | Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y cyngor.<br>Rheoli perfformiad. |

## 9. Arweinyddiaeth Sifig

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Cadeirio'r Cyngor Llawn** | Uwch sgiliau cadeirio | Cadeirio cyfarfodydd y cyngor llawn yn effeithiol gan ddangos sgiliau rheoli ar arwain cyfarfodydd.<br>Dealltwriaeth drylwyr o reolau sefydlog a rheolau gweithredu. |
| **Cynrychioli'r Cyngor mewn Achlysuron Sifig** | Rheoli enw da<br>Siarad yn gyhoeddus<br>Rheoli cysylltiadau | Dangos sgiliau cyfathrebu, rhyngbersonol a chymdeithasol lefel uchel. |

DRAFT

## 10. Partneriaeth a chynrychiolaeth

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Gweithio ar gyrff allanol** | Deall rôl y corff allanol body.<br>Deall rôl y cynghorydd ar y corff allanol boed fel cynrychiolydd y cyngor, cynrychiolydd yr ardal, neu fel unigolyn | Adrodd i'r cyngor a'r corff allanol ac oddi wrthynt fel y bo'n briodol.<br><br>Cynrychioli barn y cyngor, barn bersonol neu farn y gymuned yn effeithiol ac yn briodol yn ôl y sefyllfa. |
| **Gweithio'n llywodraethwr ysgol** | Deall polisi addysg a threfniadaeth yr ysgol. | Goruchwylio perfformiad yr ysgol.<br>Herio rheolaeth yr ysgol fel cyfaill beirniadol.<br>Cymryd rhan mewn hyfforddiant llywodraethwyr. |
| **Gweithio'n aelod o Gyngor Cymuned neu Dref** | Deall rôl y cyngor cymuned a'i gyfyngiadau. | Cydgysylltu'n effeithiol rhwng y cyngor cymuned a'r cyngor Unedol, gan weithredu'n ddolen gyswllt ac yn gynrychiolydd y Cyngor lle bo'n briodol.<br>Gweler y Fframwaith Datblygu Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned sydd wedi ei atodi. |
| **Gweithio'n Aelod Cyfetholedig** | Deall rôl a chyfyngiadau rôl aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau. | Rhannu arbenigedd â'r pwyllgor yn ddiduedd. |

## 11. Amgylchedd Gwleidyddol

| Gofyniad | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|
| **Polisi Plaid** | Ymwybyddiaeth o werthoedd a maniffestos yn genedlaethol ac yn lleol. | Cydbwyso gofynion pobl, y blaid, y grŵp a'r cyngor yn effeithiol. |
| **Cydgysylltu â'r Llywodraeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru** | Deall swyddogaethau Llywodraeth Cymru a sut i ymgysylltu. | Cydgysylltu ag Aelodau seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol.<br>Dod â materion lleol i sylw Llywodraeth Cymru pan fo'n briodol. |
| **Aelodaeth Grŵp** | Rheolau a strwythur a pholisïau'r grŵp etholaethol. | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth 2015** |
| **PWNC** | **Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **PWRPAS** | **Adroddiad 2015/16** |
| **AWDUR** | **Geraint George**<br>**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |

1. Mae adroddiad Blynyddol y Panel uchod, dyddiedig mis Chwefror 2015, a fydd yn cael ei roi ar waith ym mlwyddyn ariannol 2015/16, bellach wedi'i gyhoeddi.

2. Dyma seithfed Adroddiad Blynyddol y Panel ers iddo gael ei sefydlu yn 2008 a'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ('y Mesur') 1.

3. Y llynedd penderfynodd y Panel, o ystyried y llaciad cymedrol iawn yn y cyfyngiadau ar gyflogau yn y sector cyhoeddus a hefyd i atal erydu pellach o lefelau cymharol tâl, i gynyddu'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau o brif awdurdodau gan 0.9% o wanwyn 2014, ac i gynyddu taliadau eraill yn gyfatebol.

4. Eleni mae'r Panel wedi penderfynu **na fydd unrhyw gynnydd yn y cydnabyddiaeth ariannol** o ystyried y cyfyngiadau parhaus ar wariant llywodraeth leol.

5. Gellir gweld copi o'r adroddiad ar safle we y Panel trwy'r cyfeiriad isod:

www.renumerationpanelwales.org.uk

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **10 Mawrth, 2015** |
| **PWNC** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS** | **Enwebu Swyddog i'r Swydd** |
| **AWDUR** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |

1. Dan adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyn i'r Cyngor enwebu un o'u swyddogion i swydd statudol newydd sef "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd". Mae gofyn hefyd i'r cyngor roi digon o gymorth i'r swyddog allu gwneud ei waith.

2. Mae'r penodiad i'w wneud gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Cyngor.

3. Ni ellir penodi'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro na'r Prif Swyddog Cyllid yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r swydd yn un sy'n cario cyfyngiadau gwleidyddol yn yr un modd â swyddi penaethiaid gwasanaeth eraill (h.y. ni all deilydd y swydd gymryd rhan amlwg mewn gweithgaredd wleidyddol).

4. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ydi:

a) Rhoi cymorth a chyngor
- i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd,
- i bwyllgorau'r awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgorau hynny,
- i unrhyw gydbwyllgor
- i aelodau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgorau craffu
- i bob aelod o'r Cyngor mewn perthynas â'u gwaith

b) Hybu rôl y pwyllgorau craffu

c) Rhoi adroddiadau am nifer a graddau'r staff mae ei angen i gyflawni ei ddyletswyddau.

5. Pennaeth yr Adran Strategol a Gwella sydd wedi bod yn gweithredu fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ers Mai, 2012. Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fy mod wedi adrodd i'r Cyngor fy mod, fel rhan o'r arbedion uwch reolaethol sydd yn rhan o Strategaeth Arbedion y Cyngor, yn uno'r Adran Strategol a Gwella a'r Adran Adnoddau Dynol, gyda hynny'n weithredol o 1 Ebrill, 2015.

6. Mae'r trefniant ers 2012 wedi gweithio'n dda a'r peth synhwyrol felly yw bod y cyfrifoldeb yn disgyn i Bennaeth yr Adran newydd sydd yn cael ei ffurfio o'r uno hwn, sef y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Datblygu'r Sefydliad.

7. Rwy’n argymell hynny i’r pwyllgor a bod y pwyllgor yn dynodi’r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Datblygu’r Sefydliad yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.